YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1893. [RHIF 72

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

EGLWYS EIN TAD.

(Parhad o Rifyn Hydref.

YSPRYDOLIAETH BARHAUS DYN GAN DDUW.

MAE dynion yn raddol yn dyfod i weled hyn, ac mewn canlyniad mae hen ffurfiau o ffydd yn diflanu. Cred yn awdurdod y Beibl fel yr unig ddatguddiad oddiwrth Dduw oedd yr offeryn a ddefnyddiwyd ar amser y Diwygiad i fwrw i lawr yr honiad oedd yn dal i fyny awdurdod un eglwys neu un dyn; ond mae'r offeryn wedi myned yn gadwyn. Fel canlyniad y mae genym yr holl gyffro yma yn yr eglwysi, a'r hiraeth am ryddhad. Angen mawr crefyddol yr oes yw dychwelyd at ffydd gariadlawn y Salmwyr a'r proffwydi, Iesu a Paul, fod ein Tad, o hyd, ac yn mhob man, yn dysgu, yn dyrchafu, ac yn ysprydoli ei blant—yn dadblygu yn barhaus y meddwl a'r gydwybod ddynol, yn eu gwneyd yn fwy ufudd i'w lais ac yn fwy awdurdodol, tra mae yn ein harwain allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni Ef.

Yma, fel yn mhob man, y gwirionedd goruchaf ydyw hwn, mai "ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod." Mae yr hyn a elwir yn "ddatguddiad" bob amser yn ddarganfyddiad, ond darganfyddiad cydweddol â deddfau ysprydol dirgelaidd, y rhai a gyssylltant fywyd mewnol yr hiliogaeth â'r galluoedd nefol ac anweledig. Ni allasai ysprydoliaeth byth fod yn lleol ac eithriadol, am y rhesymau syml nad yw gweithrediad yr ysprydol tragwyddol ac holl bresennol byth yn lleol ac eithriadol.

Nid yw ysprydoliaeth yn golygu anffaeledigrwydd; golyga yn unig fod doethineb a chariad nefol yn bresennol fel cynnorthwyon. Mae mesur ysprydoliaeth bob amser yn fesur y gallu i dderbyn ac i ddefnyddio. Mae Duw o hyd yn anadlu

mewn dyn anadl einoes, fel mae dyn yn dyfod yn enaid byw. Yn mhob man ei Yspryd Ef sydd yn rhoddi i ddyn ddeall. Ac yn awr, fel erioed, mae salmydd a gweledydd, celfyddydwr a gwleidyddwr, Messiah ac apostol, yn derbyn o ysprydoliaeth y goruchaf Dduw.

CYMUNDEB GWASTADOL YSPRYDOEDD CYDNAWS YN A CHYDRHWNG YR ANWELEDIG A'R GWELEDIG.

Ni fydd holl aelodau Eglwys ein Tad yn alluog i dderbyn y gosodiad yma yn yr un ystyr. Nid yw hyny yn angenrheidiol. Y meddwl hanfodol yw fod yr anweledig yn ffaith, a bod y ffordd iddo yn agored. Dyna'r unig beth mae crefydd yn ofyn ar ochr gobaith a hiraeth ysprydol.

Nid oes dim yn fwy gwir na bod y synwyrau allanol yn dwyllodrus. Gwnant ni yn gynnefin â rhyw gylch cul cyfyngedig. Ni ddywedant ddim am yr hyn sydd yn gorwedd ar eu terfynau, ond yn hytrach awgrymant yr hyn sydd wrthwynebol i'r ffaith, fel pe byddent hwy yn datguddio pobpeth sydd i'w weled, i'w deimlo, a'i glywed. Dywedodd Paul fod y pethau a welir dros amser, a'r pethau ni welir yn dragwyddol. Gallasem ninau ddweyd gyda chymmaint o wirionedd fod y pethau a welir ar y traethau, tra mae y pethau ni welir yn gorwedd ar foroedd a chyfandiroedd y bydysawd. Duw a'r angelion sydd y mwyaf o'r holl sylweddau, a dim ond terfynau cyfyngedig y synwyrau, a thlodi yr ysprydol, fel mae'n trigo mewn cnawd sydd yn ein hattal rhag gwybod mor gwbl gywir yw y dywediad hwnw, "fod cymmaint cwmmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch." Mae ffydd a gobaith Eglwys ein Tad yn cyrhaedd ei heithafnod yn yr hyder gogoneddus nad yw yr hyn a alwn ni yn farwolaeth yn ddim ond cam yn mlaen at ffurf uwch o fywyd, ac y bydd athrawon doeth, ac iachawdwyr cariadus yn darparu ar gyfer angenion pob pererin sydd yn pasio tu hwnt i'r llen.

CANLYNIADAU.

Nid yw Eglwys ein Tad yn dysgwyl unffurfiaeth cred. Mae hyd y nod yn cefnogi gwahaniaethau mewn barn, ac yn ceisio am undeb yr ysprydyn nghwlwm tangnefedd. Mae yn awyddus i ddwyn at eu gilydd ysprydoedd cydnaws, er mwyn myfyrdod ac addoliad – gwaith sydd bob amser yn meithrin ac yn dyrchafu y bywyd ysprydol;—ond deil nad yw aelodiaeth Eglwysig yn golygu fod dynion yn cyfarfod â'u gilydd mewn un lle, ac, o ganlyniad, mae'n croesawu ac yn cyfrif fel aelodau bawb sydd yn proffesu cymmeradwyo ei hamcanion a'i chynlluniau.

Rhaid i Eglwys ein Tad fod bob amser yn rhydd a blaenfynedol: rhydd, dealler, i adolygu unrhyw un o'i chasgliadau, ac yn flaenfynedol gyda golwg ar ei hamcanion a'i gobeithion. Nis gall gydnabod unrhyw beth fel yn derfynol, a'i hyfrydwch bob amser fydd derbyn cenadwriaethau newydd oddiuchod. Dysga mai prif nod y bywyd dynol yw dadblygiad y dyn mewnol ar bob ochr o'i natur. Creda yn y "Duw byw." Mae ystyr yn yr hwn nid yw yn Eglwys Crist; oblegyd cymmer Grist ar ei air, a brysia yn mlaen at y Tad. Iesu Grist oedd "y cyntaf-anedig (h.y., y penaf) yn mhlith brodyr lawer;" ond dywedodd efe ei hun wrthym am uno ag ef mewn gweddi ar "Ein Tad," ac yr ydym yn fwyaf ffyddlon i'r Iesu pan yr awn ato Ef, yr Hwn a gyfenwai "Yr unig wir Dduw." Pe byddai y di-

wygiwr dewr hwnw, gyda'i galon syml a thyner, a'i gariad gwresog at y gwirionedd, yma heddyw, efe fyddai y cyntaf i'n harwain yn mlaen, a'n galw ymaith oddiwrth yr hen draddodiadau tywyll ac hynafol sydd yn cael eu gwthio arnom yn ei enw.

Gwna Eglwys ein Tad bob ymdrech yn ei gallu i ddwyn plant y Tad at eu gilydd, er mwyn cydymdeimlad a chefnogaeth—"Y cyfoethog a'r tlawd a gyd-gyfarfyddant; yr Arglwydd yw gwneuthurwr y rhai hyn oll." Mae yr Eglwys, yn rhy fynych, wedi annghofio hyn; ond, yn ol y mesur y cofia hyn y bydd yn deilwng o enw y Tad. Mewn gwir Eglwys dylai y rhwymyn fod, nid athrawiaeth, ond cydymdeimlad; ac mae angen cydymdeimlad, goleuni, gobaith, a'r teimlad o frawdoldeb, yn fwy na neb ar y tlawd. Chwerwder eu tynged yw y teimlad nad oes neb yn gofalu am danynt; ac mae'r teimlad hwn i gael ei orchfygu, nid gymmaint gan gymmwynasau a chan gariad.

Nid yw Eglwys ein Tad yn awyddus i luosogi anturiaethau eglwysig yma ac acw. Dewisa yn hytrach i ddysgu dynion i gydweithio er mwyn daioni yr oll—i gymhwyso ei hegwyddorion a'i hamcanion fel meistriaid a gweision, rhieni a phlant, prynwyr a gwerthwyr, dinaswyr a chyfeillion. Ei hamcan uwchaf yw bod yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fyny i fywyd tragwyddol.

Y GWAITH.

Gan ein bod wedi hir ymarfer â threfniantau allanol ac eglwysi, mae'n bossibl i'r cynllun a eglurir yma ymddangos yn anmhennodol ac anymarferol. Ond gall y gwirionedd orwedd yn y cyfeiriad arall. Beth os mai dim ond pum' cant o bersonau ar y cyntaf, mewn gwahanol barthau o'r byd, a unant â'u gilydd fel aelodau o Eglwys ein Tad? Bydd pob un o honynt yn ganolbwynt rhyw ddylanwad, ac yn dwyn tystiolaeth mewn amrywiol ffyrdd i egwyddorion hanfodol ein Heglwys. Aiff y dylanwad hwnw ar wasgar; ac yn mhen ychydig o flynyddau, bydd miloedd o bersonau mewn dull tawel a didwrw yn codi i fyny ein baner. Ar gyfrif dylanwad yn unig, pwy all fesur yr effaith a gynnyrchir? A ydyw yn sicr y byddai dylanwad hyd y nod holl eglwysi cadeiriol Lloegr mor fawr? Mae'n eithaf possibl mai eglwys rydd ysprydol o ddyeithriaid "ar wasgar" yw y peth ag y saif y byd mewn angen am dano.

Gall pob aelod o Eglwys ein Tad gynnorthwyo mewn amrywiol ffyrdd—trwy gadw mewn llaw nifer digonol o'r traethodyn hwn er mwyn ei gylchdaenu yn mblith cyfeillion; trwy siarad â dynion ystyriol am ein Heglwys (nid ymresymu, ond egluro); trwy ddwyn i fewn aelodau newyddion a fyddant yn eu tro yn offerynol i wasgar goleuni a dylanwad; trwy gefnogi neu gychwyn cyfarfodydd (pa mor syml bynag y byddont), er mwyn addoliad rhesymol ac ysprydol; neu trwy sefyll yn barod i gynnorthwyo pan y delo'r awr i ddechreu yn Llundain neu mewn manau ereill, y cyfryw gyfarfodydd ar raddfa fyddo'n effeithiol i attynu ac i wneyd argraff ar y lluaws sydd mewn angen am danynt.

Gwna Eglwys ein Tad, gobeithiwn, gynnyg i'r rhai sydd mewn angen am hyny, yn ngwahanol barthau'r byd, y cyfleusdra i gymdeithasu ac addoli mewn cydweddiad â'r gwir syniad am Eglwys; ond gall rhan bwysig o'n cenadwri gael ei chario allan ar unwaith. Gall y rhai sydd yn cydymdeimlo â'i hamcanion mewn unrhyw le, neu eglwys, neu tu allan i'r holl eglwysi, amlygu eu dymuniad i gael eu cofrestru fel aelodau o honi; yn y modd hyn caiff y gwaith da ei wneyd yn y ffordd fwyaf effeithiol, gan y bydd yr aelodau, yn ngwahanol ranau'r byd, yn defnyddio eu cyfleusderau i wasgaru eu dylanwad yn mhob cyfeiriad. Er mwyn bod yn aelod o Eglwys ein Tad, nid yw yn angenrheidiol i ddyn roddi ei aelodaeth i

fyny fel "Eglwyswr," "Bedyddiwr," "Undodwr," &c. Wrth gwrs, lle bynag mae gan Eglwys ein Tad leoliad neillduol, byddai yn dda i'r aelodau ymgynnull at eu gilydd er mwyn addoliad, a chario allan eu hargyhoeddiadau mewn modd cyhoeddus; ond nid yw hyny yn hanfodol. Y cwbl sydd angenrheidiol i ddyn yw cydymdeimlad cyffredinol ag egwyddorion ac amcanion Eglwys ein Tad, a'r dymuniad i gael ei gofrestru fel aelod. Nid oes eisieu dysgwyl am gynnulleidfaoedd, ynte; ond trwy gylchdaenu yn helaeth y traethodyn hwn gan aelodau yr eglwys, a thrwy gyfrwng y llythyrdy, trwy hyspysiadau amserol yn y newyddiaduron o'r Saith Egwyddor, trwy ddarlithiau a chyfarfodydd addoliad mewn gwahanol barthau, gall y rhan fwyaf gwerthfawr o genadwri Eglwys ein Tad gael ei chario allan ar unwaith mewn modd effeithiol.

Gofyna hyn, wrth gwrs, arian, ac mae'n ddymunol fod arian yn cael eu cyfranu; ond nid yw taliad arianol yn angenrheidiol i aelodaeth; er y gobeithir y bydd y rhan luosocaf o'r aelodau yn falch i gyfranu swm blynyddol, pa mor fychan bynag, at y treuliau. Gellir gwario swm fawr o arian yn y gwaith, a'u gwario'n dda, ond mae o leiaf hanner can' punt y flwyddyn yn ofynol er cyfarfod â threuliau hyspysu, argraffu, anfon llythyrau a theithio.

AMCANION.

Yn ddiamheu, bydd llawer nad ydynt yn deall yn dweyd, "Ar ol y cwbl, pa ddaioni wnaiff hyn?" gan annghofio ein bod wedi ein gwneyd ar gyfer cymdeithas, brawdoliaeth, a chariad. Mae y teimlad o unigedd yn dueddol i wneyd dyn yn gul ac yn oer, ac mae y fath dynged yn galed i'w dwyn; ac mewn dyddiau o wasgaru fel y rhai hyn, mae llawer o ddynion yn unig iawn,—yn mynwesu meddyliau dyeithr, heb wybod beth yw eu hystyr,—yn cael eu hanner dychrynu wrth feddwl eu meddyliau, yn ofni galw y peth dysglaer yn aur gwerthfawr, hyd nes y cyffesa rhyw gymmydog, brawd, chwaer, neu gyfaill, neu y daw rhyw athraw dylanwadol i'w harwain. Gwnelai Eglwys ein Tad y rhai hyn yn hyderus a llawen.

Mae llawer o annedwyddwch y byd yn dyfod oddiwrth fynwesu credöau yr hen fyd, neu amheuon y byd newydd; ac mae llawer o filoedd ydynt fel mater o ddedwyddwch personol yn byw mewn angen dygn am y rhyddhad, nas gall dim ond syniadau dysglaer a gobeithiol ei gyfranu. "Mae meddyliau yn bethau." Maent yn "yspryd a bywyd" i eneidiau agored. Yn y diwedd symmudant y byd. Pe na wnai Eglwys ein Tad fwy na dal i fyny ei baner i dywys plant Duw "allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni Ef," gallasai fod yn un o iachawdwyr y byd.

Ond, y tu hwnt i hyn oll, yr ydym yn troi at y byd, nid at gynghorau Eglwysig, a sefydliadau o bob math. Dywedwn, "Byddwch byw dros y frawdoliaeth; a chariwch allan, yn mhob man, egwyddorion Eglwys ein Tad. Gadewch i'r egwyddorion hyny wneyd yr holl wahaniaeth i chwi fel rhieni a phlant, brodyr a chwiorydd, dinaswyr a chyfeillion." Amcan Eglwys ein Tad,—pa un a ydyw wedi ei chorffoli "mewn cynnulliadau gweledig," neu yn cael ei "synied yn ysprydol" gan ysprydoedd cydnaws, nas gallant byth gyd-gwrdd,—yw calonogi dynion a menywod ar gyfer pob gwasanaeth daionus, arwain pobl ieuainc ar y llwybr uniawn, a bod yn lefain yn gweithio yn fendithiol trwy'r byd. Mae yn un o gamsyniadau y byd mai pethau ymarferol yw y pethau hyny yn unig sydd yn dyfod i'r golwg yn nghylchoedd materol y bydysawd. Nid yw teyrnas nefoedd yn awr, mwy nag erioed, yn dyfod "wrth ddysgwyl," nac wrth edrych am dani. Mae yn gweithio yn nhiriogaeth syniadau moesol ac ysprydol, a dim ond mewn modd anuniongyrchol mae yn ennill ei buddugoliaethau mewn

cylchoedd îs. Mae'n bossibl, ynte, i Eglwys ein Tad,—a'i hystyried yn unig fel cyfrwng i esponio a dysgu meddyliau, gobeithion ac amcanion newydd,—ddyfod yn un o alluoedd ymarferol mwyaf nerthol y dyddiau hyn.

YMWELIAD A RHYDYCHAIN.

YCHYDIG flynyddau yn ol pan oeddwn yn gweinidogaethu yn swydd Caint, tua deg milldir ar hugain i'r deheu o Lundain, arferwn ymweled yn achlysurol â dinas hardd a chlasurol Rhydychain. Felly yr oeddwn yn dra chyfarwydd â nodweddion mwyaf dyddorol y lle, pan aethum yno ar y 18fed cynfisol ar un o'r achlysuron pwysicaf yn hanes ein henwad, sef agoriad ein prif Goleg yn Athen dysg Prydain Fawr. Tua hanner canrif yn ol pan oedd y diwygiad eglwysig a gychwynwyd gan John Henry Newman, ac ereill, yn ei lawn rym yno, braidd y meiddiai Ymneillduwr godi ei ben yno. Ond erbyn hyn mae y llanw yn llifo y ffordd arall. Yn mhob cŵr o'r byd, lle mae y bobl yn rhydd i farnu drostynt eu hunain, mae y meddwl dynol yn myned rhagddo yn nghyfeiriad Undodiaeth. O'r diwedd mae ein ffydd wedi ymgartrefu yn Rhydychain—y ddinas hono, fel y dywedai John Bright, ag sydd yn enwog drwy yr holl fyd gwareiddiedig fel nythle "ieithoedd meirwon a rhagfarnau henafol!" Lle braidd heb ei fath yw Rhydychain. Arferai Syr Walter Scott ddweyd nad oedd y fath heol yn Ewrop a High Street, gyda'i cholegau a'i hadeiladau cyhoeddus. Tra rhodiwch yn yr heol hon, teimlwch eich bod yn anadlu yn awyrgylch gwybodaeth, ac ni allwch lai nag efelychu, i ryw raddau, arddull y personau dysgedig a gyfarfyddwch â hwy. Os dygwyddwch fod yn cerdded ychydig yn esgeulus, yr ydych yn sicr o gwrdd â rhyw wr o uchel radd, a thra yr edrychwch ar ei ystum urddasol a'r modd y dyrchafa ei ên i gyfeiriad y ser, teimlwch awydd i wneyd eich corff ychydig yn fwy cryno. Dyna y rheswm, debygwn, fod yr holl ddynion ieuainc a ddysgir yn Rhydychain yn codi eu traed gyda rhywfath o osgedd fawreddog, ag sydd yn hynod ddyddorol i bobl wledig.

Cychwynais ar fy nhaith tuag wyth o'r gloch y boreu, a chyrhaeddais Rydychain yn mhen ychydig dros chwech awr. Yn y prif orsafoedd ar y ffordd—Leeds, Sheffield, Derby, a Birmingham—dylifai Undodiaid i mewn i'r trên. Gallwn braidd bob amser adnabod Undodwr cysson a chydwybodol wrth y dedwyddwch a lewyrcha ar ei wynebpryd. Os goddefir i mi arfer iaith amaethyddol mewn cyssylltiad mor ddifrifol, dywedaf fod gwir grefydd yn "rho'i grân" ar ddyn. Yn Leeds daeth Cymro a Chymraes i mewn i'r cerbyd lle teithiwn. Gan fod yr hen wraig yn siarad Saesonaeg mewn dull tra gwreiddiol, ni fu yn hir cyn fy argyhoeddi ei bod yn d'od o'r Dywysogaeth. Heb y rhybudd lleiaf, dywedais wrthi mewn Cymraeg glân, gloew—"Mae'n foreu braf, onid yw?" Pe bawn yn angel ag adenydd o blû ar fy ysgwyddau, ni allai edrych yn fwy llawen. Cefais allan fy mod yn siarad ag un o berthynasau yr enwog John Penry, y diwygiwr, yr hwn a roddodd ei fywyd i lawr dros achos rhyddid dri chan' mlynedd yn ol. Pe deuai yn ol yn awr, gwelai fod braidd yr oll o'i freuddwydion wedi eu sylweddoli.

Yr oedd Pwyllgor y Coleg wedi bod yn brysur iawn am amser maith yn gwneyd paratoadau ar gyfer y cyfarfodydd, ac nid gwaith bychan oedd gwneyd darpariadau ar gyfer saith cant o ymwelwyr, a chael llety cysurus i bob un am ddwy noson. Bum I mor ffodus a bod dan gronglwyd hen westy y Mitre, lle y darfu i mi letya lawer gwaith o'r blaen. Ni tum yno bum' mynud cyn i un o wyn fy neadell, yr hwn sydd yn astudio ar gyfer y weinidogaech, dd'od i mewn i'm croesawu. Gwahoddodd y Pwyllgor oddeutu cant a hanner o honom i ymgyfarfod mewn neuadd gyhoeddus yn Holywell, er myned yn orymdaith i'r Coleg gerllaw, ac yr oedd tua hanner y nifer yn aelodau o'r Brif Ysgol, a gwisgent eu gradd-wisgoedd priodol. Ni ddarfu i'r cyfryw o honom a dderbyniasom ein graddau o Brif Ysgolion ereill ymddangos yn ein *robes* yn yr orymdaith, gan nad yw yn unol â "braint a defod" Rhydychain i wneyd hyny. O fewn y Coleg yr oedd yn wahanol. Yno gwisgai yr oll o'r graddol-

ion eu gwahanol liwiau, ac yr oedd yr olwg arnynt yn dra tharawiadol. Yr oedd yr Hybarch Ddr. Martineau, ac amryw enwogion ereill, mewn gynau o sidan ysgarlad. Eithaf tebyg pe bai rhai o Brotestaniaid eithafol Cymru yn bresennol, byddai iddynt ddrwgdybio fod rhyw gyssylltiad rhwng y cynnulliad a'r "wraig oedd wedi ei dilladu â phorphor ac ysgarlad," y sonir am dani yn Llyfr y Datguddiad! Nid ydym ni fel Undodiaid yn talu llawer o sylw i'r pethau allanol hyny; etto, ar achlysur neilldiol o'r fath hwn, priodol oedd dangos i'r gwyddfodolion ein bod yn gwerthfawrogi dysg. Nid oedd yr orymdaith yn hollol reolaidd. Mae annybyniaeth barn mor gryf ynom, fel mae yn anhawdd iawn ein cael i gydweithredu mewn materion o'r fath.

Saif y Coleg mewn man hynod dawel, yn yr un heol a Choleg Annybynol Mansfield. Yn ei arddull, ei gyfleusderau, a'i harddwch, mae yr adeilad goreu a fedd ein henwad. Ei gost, gyda £10,000 er gwaddoli y capel, yw £55,000, ac erbyn hyn nid oes ond rhyw £2,000 yn aros i'w casglu. Heblaw hyn mae Mrs. George Buckton wedi anrhegu y capel ag *organ* gwerth mil o bunau, ac mae Mr. Nettlefold a'i briod hawddgar wedi addaw gosod ffenestr o wydr lliwiedig uwchben yr allor, yr hon a gostia fil neu ddeuddeg cant o bunnau. Diolch i'r nefoedd, mae rhai pobl dda yn ein plith a gredant y dylid gwneyd tŷ yr Arglwydd mor hardd ag y byddo modd.

Eir i mewn i'r adeilad drwy un porth llydan, uwchben yr hwn mae yn gerfiedig eiriau a ddefnyddiwyd gan Dr. Barnes ar agoriad y Coleg yn Manchester yn y flwyddyn 1786—"To Truth, to Liberty, to Religion;" yn Gymraeg—"I'r Gwirioned, i Ryddid, i Grefydd." Uwchben y fynedfa mae twr uchel, o ben yr hwn y gellir cael golygfa helaeth o'r wlad oddiamgylch, ac o golegau gorwych Rhydychain. Mae y gwahanol ystafelloedd oll yn hardd a chyfleus. Mae y capel yn wir ddestlus. Oddimewn addurnir y muriau, y pwlpud, a'r côr â cherfwaith derw, ac ni allwn gredu fod gwaith mwy chwaethus hyd y nod yn Nheml Solomon. Ar ddydd yr agoriad llwyddwyd i gael saith cant o bobl i mewn i'r capel, ond nid yw wedi ei gynllunio ar gyfer ond 500, neu lai na hyny. Rhodd dywysogaidd Mr. Henry Tate yw y Llyfrgell, a chostiodd £10,000. Mae yn 80 troedfedd o hyd a 30 troedfedd o led, ac mae yr holl ddodrefn ynddi o waith derw. Cynnwysa 17,000 o gyfrolau. Goleuir yr holl adeilad—capel, llyfrgell, ac ystafelloedd—â goleuni trydanol; a chredaf na allai yr holl ganwyllau a losgwyd yn Nghymru er y cread wneyd y lle mor ddysglaer a goleu. Felly boed i'r gwyr ieuainc a addysgir o fewn i'r muriau i oleuo tywyll-fanau y byd ag Efengyl bur Undodiaeth. Ond rhaid i mi ddychwelyd at yr orymdaith, yr hon a adewais yn nghymmydogaeth y porth.

Dechreuwyd y seremoni drwy i'r pen-adeiladydd, Mr. Thomas Worthington, roddi allwedd aur emmawg i'r trysorydd, Mr. Charles W. Jones, mab i'r diweddar Barch. Noah Jones. Yna cyflwynodd Mr. Jones hi i Mr. H. Russell Greg, Cadeirydd y Pwyllgor, i'r hwn yr ymddiriedwyd y gorchwyl o agor y drws. Mewn araeth fechan wir goeth diolchodd Mr. Greg i'r Pwyllgor am yr anrhydedd o gael cyflawnu dyledswydd mor bwysig yn hanes y Coleg. Yna ymdyrai y gwyddfodolion i'r porth fel gwenyn o flaen cawod, ac er fod dau heddgeidwad yn bresennol, yr oedd yr olygfa o amgylch y twr yn deilwng o Babel. Wedi i'r cythrwfl fyned heibio aeth yr orymdaith i fyny y grisiau at ddor y Llyfrgell, lle cymmerodd seremoni arall le. Cyflwynodd y tad hawddgar yn Israel, Mr. Joseph Lupton, allwedd aur arall i Mr. Harry Rawson, fel cynnrychiolydd Mr. Henry Tate, yr hwn a analluogwyd i fod yn bresennol gan afiechyd. Yna darllenodd y Parch. H. E. Dowson, B.A., amryw lythyrau llongyfarchiadol oddiwrth enwogion nad oeddynt yn alluog i gymmeryd rhan yn y gweithrediadau, megys y Llywydd Eliot o Brif Ysgol Harvard, Esgob Ferenz o Hungary, Iarll Goblet D'Alviella o Brussels, Dr. Tiele a Dr. Oort o Leiden, Proffesswr Pfleiderer o Berlin, Proffeswr Rèville o Paris, Arglwydd Carlisle, Dr. Edwards o'r Bala, ac amryw ereill. Pan glywem enwau cynnifer o dramorwyr ymgodai ynom deimladau tebyg i eiddo yr apostolion ar ddydd mawr y Pentecost. Yna cyhoeddodd y Llywydd fod y coleg a'r capel wedi eu hagor yn briodol, a datganai ei weddi a'i ddymuniad mai eu tuedd penaf fyddai gogoneddu Duw, caru ac efelychu Crist, a gwasanaethu dyn. Ar ei ol dywedodd Dr. Drummond, y Prif Athraw, ychydig eiriau yn hynod o bwrpasol a tharawiadol. Gobeithiai y byddai i'r cyfeillion oeddynt wedi cyfranu mor helaeth i "anfon tô o fechgyn ieuainc ar dân gan gariad a difrifoldeb, i gael eu parotoi ar gyfer y gwaith sanctaidd o ddyrchafu eu cyd-ddynion, a iachau pechod a thrueni y byd. Gyda diolchgarwch dygent i gof y

gwyr a'r gwragedd ffyddlon hyny, y rhai yn yr amser gynt a herient erlidigaeth tra yn dilyn y gwirionedd, enwau y rhai os nad oeddynt yn llyfr clod, oeddynt oll yn ysgrifenedig yn Llyfr y Bywyd."

Yn nesaf, cynnaliwyd cyfarfod yn y capel i'w gyflwyno i wasanaeth Duw, ac yr oedd y lle yn orlawn. Er nad oedd y trefniadau yr hyn a ddymunid, etto yr oedd yn amlwg fod y dorf yn mwynhau yr addoliad, ac yn derbyn bendith oddiwrtho. Yr wyf fi yn cytuno â Mrs. Humphry Ward, awdures enwog *Robert Elsmere*, yr hon oedd yn bresennol, nad oedd y gwasanaeth yn deilwng o'r amgylchiad. Y pregethwr oedd y Parch. H. E. Dowson, a'i destyn oedd, "Ceraist wirionedd," Salm li. 6. Yr oedd yn bregeth ddyddorol i gyfeillion y coleg. Talodd y pregethwr ei deyrnged o barch i Dr. Jowett a Dr. Crosskey, y rhai a dorwyd i lawr gan angeu mor annysgwyliadwy. Yr oedd y blaenaf yn un o ysgrifenwyr y llyfr a elwid *Essays and Reviews*, yr hwn a greodd gynhwrf mawr yn y gwersyll iawnffyddol. Fel Prif Athraw Coleg Balliol, yr hwn yw y blaenaf mewn anrhydedd, yr oedd ganddo ddylanwad mawr yn Rhydychain, ac iddo ef y rhoddwyd y gorchwyl o roesawu ein Coleg ar ail ddydd yr agoriad. Da genyf weled fod un o'm hen athrawon, Dr. Edward Caird, o Brif Ysgol Glasgow, wedi ei appwyntio yn olynydd iddo. Mae yntau hefyd yn dal yr un syniadau crefyddol ag a draddodir yn ein pwlpudau Undodaidd. Er prawf o hyny, darllener ei lyfr diweddaf ar "Ddadblygiad Crefydd." Ar ddiwedd y gwasanaeth, traddododd Dr. Martineau y "fenditb," ac er ei fod yn 88ain oed, llefarodd mewn llais clir a chlywadwy. Wrth wrandaw arno, teimlwn ei fod yn wr ag oedd wedi rhodio gyda Duw.

Boreu dydd Iau, cynnaliwyd cwrdd cymmundeb yn y capel, ac yr oedd y lle yn llawn. Traddodwyd anerchiad gan Dr. Martineau, ac yr oedd ei glywed yn rhagorfraint gwerth ei thrysori yn nghyssegr sancteiddiolaf y cof. Dywedai nad oedd y ddefod yn arwyddocau diolchgarwch am waith Prynwr iawnol, ond yn hytrach parchus gariad tuag at un a arddangosodd drwy fywydol eglurhad yr hyn a ddylai ein hyspryd a'n cymmeriad fod. Ei ystyr oedd hunan-gyflwyniad i'r bywyd perffaith, a marwolaeth pob ffurf o iselder a drygioni. Yr oedd gweled tua 600 o Undodiaid yn cymuno yn olygfa i'w chofio.

Ar ol y cyfarfod hwn, traddododd Dr. Drummond araeth hynod gynnwysfawr a hyawdl, yn gosod allan hanes a phrif neilldnolion y Coleg. Olrheiniai ei darddiad i'r Ddeddf Unffurfiol a basiwyd yn y flwyddyn 1662, pan yr ymddiswyddodd Dwy Fil o weinidogion yr Efengyl, yn hytrach na bradychu eu cydwybodau. Am lawer o flynyddau, rhoddid addysg golegawl i wyr ieuainc yr Annghydffurfwyr mewn man annghysbell a mynyddig ar dueddau gogleddol Swydd Efrog, yn mhell o swn erlidigaeth. Goddiweddyd Annghydffurfwyr Cymru â'r un anhawsderau. Pan ddechreuodd John Jones, Llwynrhys, bregethu yn ei dŷ yn y flwyddyn 1664, gorfu arno wneyd hyny yn ddirgelaidd, ac yr oedd gwylwyr bob amser o amgylch y lle tra yr ai y gwasanaeth yn mlaen, i roddi rhybudd os byddai gweision y Llywodraeth yn gwneyd eu hymddangosiad.

Ar ol llawer o helynt blin, sefydlwyd y Coleg yn Warrington, a bu amryw o brif ddysgedigion y Presbyteriaid yn athrawon yno. O'r diwedd, ail-ffurfiwyd yr athrofa ar raddfa mwy eang yn Manchester, yn y flwyddyn 1786. Symmudwyd hi oddiyno i Efrog; ond drwy ryw achos, dygwyd hi yn ol i Manchester. Pan agorwyd Prif Ysgol Llundain, er rhoddi graddau i bawb a foddlonent yr arholwyr, gan nad beth fyddai eu barn grefyddol, penderfynodd blaenoriaid ein henwad mai doeth fyddai symmud y sefydliad i'r brif ddinas, er mwyn i'r efrydwyr gael cyfleusdra i raddio. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 1853. Pan daflwyd dorau Rhydychain a Chaergrawnt yn agored i Annghydffurfwyr yn 1871, tueddid cyfeillion y Coleg i gredu mai gwell fyddai ymadael ag awyrgylch fyglyd Llundain, ac ail-blanu plarhigyn iachaol duwinyddiaeth Undodaidd ar lanau teg yr Isis. O'r diwedd, sylweddolwyd y syniad mewn modd gwir foddhaol. Addysgwyd llawer o sylfaenwyr ein cynnulleidfaoedd yn Rhydychain, sef y Ddwy Fil. Felly, yn awr, pan mae ein breintiau wedi eu hadferu i ni, priodol i ni fyned yn ol i'r hen nyth.

Am hanner awr wedi un o'r gloch, yr un dydd, ymgyfarfu 250 honom yn ngwestty Randolph, lle cawsom arlwyaeth ddestlus a danteithiol drwy garedigrwydd y Llywydd. Yr oedd gofal neilldnol wedi ei gymmeryd i ddosparthu y gwahoddedigion wrth y byrddau yn y modd a fyddai fwyaf cysurus iddynt. Cefais I y fraint

o eistedd rhwng un o athrawon Coleg Balliol a Mr. J. Tyssul Davies, B.A., un o'n myfyrwyr. Darfu i ni siarad ychydig Gymraeg, a gwelwn wr unieithog y tu arall i'r bwrdd yn clustfeinio, gan feddwl yn ddiamheu ein bod yn penderfynu rhyw gwestiwn yn yr ieithoedd gwreiddiol! Ar ol diwallu angenion y corff, aethpwyd drwy res o lwnc-destynau. Yn flaenaf, daethai iechyd y Frenines. Hen wraig dda a duwiol yw hi, a hir oes iddi! Yn agos i ddeuddeg mlynedd yn ol, cefais yr anrhydedd o dalu ymweliad â hi gyda Dr. Sadler, Dr. Martineau, a'r Parch. Charles Wicksteed, a rhoddodd dderbyniad groesawus i ni. Ond yr wyf yn crwydro oddiwrth fy nhestyn. Yn nesaf, cynnygiodd y Llywydd Brif Ysgol Rhydychain mewn ychydig frawddegau doeth a dewisol, ac atebodd yr Anrhydeddus Wardain Coleg Merton mewn araeth hyawdl a rhyddfrydig. Llawenychwn ei glywed yn siarad mor garedig a chyfeillgar am angen addysg rydd mewn Duwinyddiaeth, ac am y daioni a fyddai i ddeilliaw o blaniad y fath sefydliad yn y lle. Yna rhoddodd Syr William Markby roesaw i'r Coleg ar ran y Brif Ysgol, ac amlygai ei alar fod lle Dr. Jowett yn wag.

Traddododd Dr. Martineau araeth faith ar ryddid meddyliol, a dangosodd mewn modd eglur na all neb fod yn ffyddlon i'r gwirionedd, os nad yw yn rhydd i'w ganlyn b'le bynag yr arweinia. Rhoddwyd anerchiadau gwych a brawdol hefyd gan Proffeswr Dicey, Canon Freemantle, Dr. Everett o'r Unol Dalaethau, ac ereill. Yn unol â rhyw hen draddodiad cenedlaethol, ni wahoddwyd y rhyw deg i'r *luncheon*, ond ni chawsant eu hanwybyddu. Ar un pen i'r neuadd giniawa, mae oriel eang, ac yno yr eisteddai rhyw 200 o foneddigesau yn ystod yr areithiau, ac ymddangosent fel pe yn mawr fwynhau hyawdledd eu perthynasau barfog.

Terfynwyd gweithrediadau dydd Iau gan gyfarfod ymgomio mawreddog yn y coleg, a gallwn dybied fod yn agos i fil o bobl yn bresennol. Yn ystod yr hwyr, chwareuodd Dr. Dodds amryw ddarnau clasurol ar yr organ mewn modd deheuig ac effeithiol; ond prif waith y cyfarfod oedd siglo dwylaw. Safai y Llywydd, Dr. Drummond, a Mrs. Drummond, mewn man cyfleus, a siglent ddwylaw â phawb ar eu dyfodiad i'r lle. Mewn perthynas i'r rhan hon o'r seremoni, mae perffaith unoliaeth barn, sef ei bod yn wir foddion gras. Yr wyf yn tybied i mi fy hun ysgwyd llaw ag oddeutu 500 o gydnabyddion, a'r dydd canlynol, yr oeddwn yn teimlo mor flinedig, fel y bu braidd yn angenrheidiol i mi roddi fy neheulaw yn yr arwestr! Yr oedd y gwahoddedigion gan mwyaf wedi ymwisgo mewn diwyg hwyrol —y gwyr mewn cotau meinion tebyg i'r rhai a wisgid gan ein teidiau yn Nghymru, a'r boneddigesau mewn sidanau o holl liwiau yr enfys; ac yr oedd "y gemmau a'r perlau puraf" i'w gweled yn ymddysgleirio yma ac acw. Sylwais nad oedd fawr o'r rhyw deg wedi ymddilladu yn y ffasiwn eithafol a ganfyddir yn fynych ar gyfryw achlysuron. Da chwi, fy chwiorydd ieuainc, peidiwch a dylyn chwaeth y Saeson yn y ddiwyg annghysurus y soniaf am dani, canys nid yw mewn gwirionedd ond magl i ddal anwyd. Os ydyw merch yn hardd, mae ei gwyneb yn ddigon i brofi hyny. Ond rhaid i mi adael materion o'r fath hyn i'w penderfynu gan rai ag ydynt yn fwy hyddysg ynddynt. Am y cyfarfodydd, tybiaf fy mod yn adsain barn pawb oedd yn bresennol pan ddywedaf eu bod yn llwyddiant mawr yn mhob ystyr.

Ni allaf ymadael â Rhydychain heb ddweyd ychydig am ei cholegau, a bywyd beunyddiol ei myfyrwyr. Fel y neshewch at y ddinas o'r ochr ogleddol, gwelwch banorama ardderchog o dyrau o wahanol ffurfiau yn ymgodi ar y terfyngylch. Ar y dde cewch gipolwg o'r Isis, yr hon sydd yn orchuddiedig ar bob prydnawn teg gan gychod a'u hwyliau yn chwyfio yn yr awel. Mae yn olygfa dlos—y dlysaf, o'r fath, a welais erioed. Os dygwydd i chwi gyrhaedd y lle yn y boreu, gwelwch luoedd o fyfyrwyr yn brysio o goleg i goleg i wrando ar wahanol athrawon. Gwisgant eu capiau ysgwâr yn y wedd gyffredin, hyny yw, ar eu penau; ond ni thalant y fath barch i'w gynau. Os bydd yr hin yn oerllyd, rhoddant hwy o amgylch eu gwddf yn lle cadach. Os bydd yn deg, caria pob llanc ei ŵn yn ei law, yn enwedig os yw wedi pasio ei flwyddyn gyntaf, a chymmer afael mewn cyn lleied a allo o hono, mewn modd a amlyga y byddai yn well ganddo ei adael gartref. Yn y prydnawn, gwelir tyrau o fechgyn, mewn gwisgoedd gwlenyn, yn cyfeirio ei camrau tua'r badau ar yr afon. Fel rheol, daw y llodrau i lawr i'r benlin, ac ni chyrhaedda yr hosanau ond tua hanner y goes, gan adael darn o honi heb un gorchudd. Dichon mai amcan y ffasiwn hynod hon yw awyro yr aelodau; ond, bu agos i mi gael y

cryd-gymmalau wrth edrych arnynt. Mae chwareuon ereill, megys palred a thafarch (*tennis and cricket*), a'r bel droed, yn boblogaidd yno; ond rhwyfo yw gwir wynfyd corfforol y myfyriwr. A chyfrif ond y prif golegau, mae yno dri-ar-hugain; ac mae ganddynt eu tlys-fadau ar yr afon, a'u clybiau badawl. Mae y tlys-fad yn fath o bleser-dy mawr nofiadwy, yr hwn a gedwir yn agos i'r geulan. Maent wedi eu haddurno a'u dodrefnu yn orwych, ac mae pob cyfleusderau ynddynt, megys papyrau dyddiol, misolion, a lle i ysgrifenu llythyrau Uwchben yr ystafell-oedd mae math o *upper deck*, lle yr ymdyra yr aelodau a'u cyfeillion, pan fyddo y rhedegfeydd yn cymmeryd lle ar yr afon. Yn ol fy marn I, y rhedegfa fwyaf ddy-ddorol yw yr hon a elwir "Torpids." Amcan y rhedegfa yw cael y lle blaenaf ar yr afon; ac mae wyth rhwyfwr yn mhob cwch. Cymmer cwch pob coleg y safle a ddaliai ar ddiwedd yr ymdrechfa y flwyddyn o'r blaen, a safant yn rhes, pen un at lyw y llall. Os bydd i un cwch daro yr un o'i flaen, newidiant eu safle, a daw yr olaf yn mlaenaf. Felly, mae gan y rhwyfwyr ddau beth mewn golwg, sef taro y cwch o'u blaen, a gochelyd cael eu taro gan yr un o'r tu ol. Fel y gellid dysgwyl, mae y gweithrediadau yn dra bywiog. Carlama cannoedd lawer o fyfyrwyr ar y lan, mewn cyffro gwyllt, ac mewn dillad mwy gweddus i drigolion Affrica nag i Bry-deinwyr. Annogant ddwylaw y gwahanol gychod gyda'r fath swn a ffyrnigrwydd, fel y gellid meddwl fod holl fyddinoedd Ewrop wedi glanio yn ein gwlad. Er hyny, mae y cyfan yn waith diniwed iawn; a thrwy ymdrechion o'r fath hyn mae ieuenc-tyd mwyaf talentog ein teyrnas yn gosod i lawr sylfaen iechyd corfforol, yr hyn a'u galluoga i gyflawnu dyledswyddau bywyd gydag yni ac effeithioldeb. Bywyd hynod hapus yw eiddo y myfyriwr yn Rhydychain, os bydd ganddo ddigon o fodd i dalu ei ffordd. Treulia ei ddydd rywbeth fel hyn:—Gelwir ef i godi am ychydig wedi saith, a brysia i'r gwasanaeth boreuol yn nghapel y coleg y perthyna iddo. Brysia yn ol i'w foreufwyd, ac yna ä i wahanol ddarlithiau hyd un o'r gloch, pan y caiff ei fyrbryd. Yna, aiff allan i gymmeryd "ymarfer corfforol," a dychwela tua phump o'r gloch er cael cwpanaid o de i'w adferu i dymher fyfyrgar. Astudia ychydig, ac aiff allan i giniawa yn neuadd y coleg tua hanner awr wedi chwech neu saith o'r gloch, fel y byddo y rheol. Aiff yn ol i'w ystafelloedd, a myfyria hyd am-ser gorphwys. Os bydd y myfyriwr yn byw yn y coleg mae ganddo ddwy ystafell, am y rhai y tala hyn a hyn o *rent* bob *term*. Caiff yr oll o'i ymborth yn ei ysta-felloedd ond ei giniaw. Yn y rhan fwyaf o'r colegau, gall myfyriwr fyw yn weddol gysurus ar £120 y flwyddyn. Un o'r sefydliadau mwyaf dyddorol mewn cyssylltiad â'r Brifysgol yw yr "Union," yr hwn sydd wedi bod, yn ystod y 70 mlynedd o'i fodolaeth, yn faethfa prif areithwyr ein gwlad, ac yn eu plith Mr. Gladstone ac Arglwydd Salisbury. Mae oddeutu mil o'r myfyrwyr presennol yn aelodau, ac mae chwech mil o aelodau ereill.

Mae y colegau yn adeiladau prydferth di-ail, ac mae golwg hynafol iawn ar rai o honynt. Adeiledid hwynt, gan mwyaf ar ddarn pedronglog o dir. Gwyneba un ochr yr heol, lle mae y porth, drwy yr hwn yr ewch i fewn i gyntedd eang, yr oll, ond y llwybrau, yn orchuddiedig gan wndwn glas trwsiedig. Ar y pedair ochr, gwyneba ystafelloedd y myfyrwyr y capel, ac adeiladau ereill perthynol i'r lle. Mewn rhai colegau mae amryw gynteddau. Gorchuddir y muriau gan blanhigion heirdd a ddringant i fyny, yn enwedig y *Virginia creeper*, yr hwn a ymddengys yn yr Hydref, pan fyddo ei ddail yn troi eu lliw, fel y llwyn tanllyd a welodd Moses yn Horeb.

Coleg Eglwys Crist a ystyrir y mwyaf pendefigaidd. Sefydlwyd ef gan Cardinal Wolsey, yn y flwyddyn 1526 Capel y coleg hwn yw Eglwys Gadeiriol Rhydychain. Yn y tŵr mae y gloch fawr a elwir "Mighty Tom," yr hon sydd yn 17,000 o bwysi, ac mae ei thafod yn 342 o bwysi. Cenir hi am ddeg munyd wedi naw bob hwyr; a chyda chant ac un o ergydion, geilw ar borthorion y colegau i gau y pyrth, a dysgwylir i'r myfyrwyr ddychwelyd i'w hystafelloedd am y nos.

Coleg y Brif Ysgol, yn High Street, a ystyrir yr hynaf; a dywed traddodiad iddo gael ei sefydlu o oddeutu mil o flynyddoedd yn ol, gan Alfred Fawr. Yno y cafodd Syr William Jones, yr Undodwr enwog, ei addysg athrofaol. Efe oedd yr awdur-dod uchaf, yn y canrif diweddaf, ar lenyddiaeth y Dwyrain.

Un o addurniadau penaf High Street yw Coleg Magdalen, yr hwn gynghanir fel pe wedi ei ysgrifenu yn "Maudlin." Mae y capel yn dlws iawn, a'r miwsig yn

nefolaidd. Ar un ochr i'r coleg mae doldir hyfryd yn perthyn iddo, ac mae llawer o geirw yno. Mae rhai o honynt mor ddof, fel y deuent at y ffenestri i dderbyn siwgr a bara o law y myfyrwyr. Yn y doldir hwn mae rhodfa hardd dan goedydd henafol a thewfrig a elwir "Addison's Walk," lle treuliai y llenor hwnw lawer o'i amser yn ystod ei arosiad yn y coleg. Yn Magdalen addysgwyd Deon Colet, y diwygiwr, Cardinal Pole, neu Powell, prif gynghorydd Mari Waedlyd, John Hampden, yr hwn ddygodd ein gwlad o gaethiwed drwy ei wroldeb yn gwrthwynebu Siarl I, a Gibbon, yr hanesydd.

Yn wir, mae yr oll o'r colegau yn ddyddorol—Penfro, lle bu Dr. Johnson yn astudio a byw mewn newyn. Oriel, lle gosododd Syr Walter Raleigh i lawr sylfaen ei glod. Merton a'i erddi paradwysaidd; a Worcester a'i ddolydd breision. Mae un Coleg Cymreig yno, sef Coleg yr Iesu. Efe yw yr unig goleg a sefydlwyd ar ol y Diwygiad Protestanaidd, a dyddir ei freinlen Mehefin 27, 1571. Ei sylfaenydd oedd Syr Hugh ap Rhys, yr hwn a fu farw yn 1564, yn debyg, cyn i'w ddrychfeddwl godidog gael ei sylweddoli. Amcanwyd y coleg hwn i roddi dysgeidiaeth glasurol i fechgyn Cymru, ac yno yr addysgwyd llawer o enwogion y Dywysogaeth, megys Edward Richard, Ystradmeurig, a Lewis Morris, y bardd. Cynnwysa y llyfrgell lawer o hen ysgrifau gwerthfawr, yn gystal a llyfrau nad ydynt yn awr i'w cael am arian. Paham na wna meibion Undodiaid y Deheudir fyned i'r coleg hwn i dderbyn eu haddysg. Deallaf fod yno amryw ysgoloriaethau gwerthfawr yn gyfyngedig i feibion rhieni Cymreig, ac yn hollol o fewn cyrhaedd llanciau talentog a myfyrgar "Gwlad y Cenin." Gallent addoli ar y Sul yn y capel Undodaidd

Rhaid i mi, hefyd, ddweyd gair am y Sheldonian Theatre, sef neuadd fawr, gywrain, wythonglog, lle, yn flynyddol, y graddir gwyr dysgedig ag ydynt wedi enwogi eu hunain. Deil yr adeilad tua phedair mil o bobl, a llenwir yr orielau gan y myfyrwyr, y rhai, yn fynych, a ymddygant yn ffraeth a digrif dros ben. Ant braidd allan o'u synwyrau os gwelant wr mewn het wen, neu gadach gwyrdd. Ar un tro rhoddid y gradd o Ll.D. i fardd Undodaidd o'r America, a thra yr oedd yn myned yn mlaen i'r llwyfan gofynodd llanc iddo, yn nghlyw pawb, a oedd wedi dyfod drosodd yn ei "Gar un Ceffyl," oblegyd dyna destyn un o'i ganeuon.

Anhawdd fyddai rhoddi desgrifiad o'r amgueddfeydd, llyfrgelloedd, a thrysorau ereill perthynol i'r Brif Ysgol, gan eu bod ar raddfa mor eang. Nis gall y meddwl eu hamgyffred heb gymhorth y llygad. Gerllaw Coleg Balliol mae cofadail arddechog i'r "Tri Merthyr Protestanaidd—Cranmer, Latimer, a Ridley, y rhai a laddwyd yn amser Mari, yn gyfagos i'r fan. Codwyd y gofadail ar draul wirfoddol y cyhoedd, yn y flwyddyn 1841, pan oedd Defodaeth yn bygwth dadwneyd gwaith y Diwygiad, ac arwain Eglwys Loegr yn ol i Rufain. Meiddiaf ddweyd mai un o'r gwrthgloddiau cadarnaf yn erbyn dylanwadau hud-ddenol Rhufain yn Rhydychain, yr amser presennol, yw Coleg yr Undodiaid yno, ac yn nesaf ato, synwyr cyffredin y bobl. Yn awr, gan fod y coleg wedi cyrhaedd rhyw fath o baradwys ddaearol, dymunaf bob llwyddiant iddo; a gobeithiaf y bydd i lawer o dadau a mamau Undodaidd Cymru neillduo eu meibion at waith yr Arglwydd, a'u hanfon yno i'w haddysgu a'u hegwyddori yn hanfodion crefydd bur a dihalog. Yr wyf yn credu nad oes un alwedigaeth, o fewn cyrhaedd dyn, a all ddwyn iddo gymmaint o wir ddedwyddwch, a bod yn "ffyddlawn weinidog i Grist."

Bradford, Tachwedd, 1893. E. Ceredig Jones.

ATHRAWIAETH YR IAWN.

Gan y Parch. Frank Walters.

Cafodd athrawiaeth yr Iawn fel y dysgir hi gan yr Eglwysi Uniongred ei gosod allan yn eglur am y tro cyntaf gan y duwinydd Anselm yn y ddeuddegfed ganrif. Cyfansoddodd lyfr dan yr enw "Cur Deus Homo;" ac ynddo gesyd allan farwolaeth Crist fel aberth i gyfiawnder Duw. Trwy godwm Adda aeth ei holl hiliogaeth dan ddigofaint

Duw, ac yn gymmaint a bod euogrwydd dyn yn erbyn Bod Anfeidrol, nid oedd bossibl i'r gosp fod yn ddim llai na phoenau tragwyddol yn uffern. Os oedd dyn i gael ei achub, yr oedd yn rhaid cael Un i ddyoddef yn ei le ag oedd yn meddu y fath urddas ag a allai roi gwerth anfeidrol i'w aberth. Felly daeth Mab tragwyddol Duw, yr ail Berson yn y Drindod yn ddyn, er mwyn rhoddi ei hunan yn aberth i ddigofaint Duw, a thrwy hyny i brynu dyn oddiwrth felldith y ddeddf. Derbyniwyd dyoddefiadau Crist ar Galfaria gan Dduw fel cyfwerth y gosp oedd ddyledus am drosedd y byd. Cyfrifwyd pechodau yr holl fyd i Grist, a chyfrifwyd cyfiawnder perffaith Crist i'r cyfryw hyny a dderbynient yr Iawn trwy ffydd.

Yn awr, mae'r gyfundrefn ryfeddol yma yn seiliedig ar dair o athrawiaethau ffugiol: (I.) Am Dduw, (II.) Am Bechod, (III.) Am Iachawdwriaeth.

I. Mae'r athrawiaeth yn gwadu Tadolaeth Duw. Os yw Cristionogaeth yn golygu addysg Crist, ac nid systemau dyryslyd offeiriaid a duwinyddion, yna nis gall un athrawiaeth fod yn Gristionogol os yn gwadu fod Duw yn Dad pawb. Nid oes un tad daearol da yn gofyn dyoddefaint ei blant oddieithr fel moddion i'w hachub oddiwrth bechod. Fe wnaiff tad doeth weinyddu cerydd trwm ar ei blentyn er mwyn peri iddo ddeall mawredd ei fai; ond mae'r cerydd yn arwydd o gariad, ac nid o ddigofaint; ac ni pharheir y cerydd un funyd yn hwy na fyddo'r angen i ddwyn y plentyn i dristwch ac i edifeirwch; ond gesyd athrawiaeth yr Iawn y Tad Nefol allan fel un yn gofyn poenau diddiwedd fel penyd pechodau ei greaduriaid. Nid yw y poenau wedi eu bwriadu fel moddion dychweliad pechadur, ond yn unig fel boddlonrwydd digofaint anniwall Duw. A gwaeth na hyny—y mae digofaint Duw mor ddialgar fel nad yw waeth ganddo ar bwy y syrthia'r gosp, ond iddo yn unig allu bwrw ei lid ar rywun. Mae dyoddefaint y diniwed yn "boddloni" ei gyfiawnder yn llawn cystal a chosp yr euog. Pe dygwyddai ini glywed am ryw dduw paganaidd yn cael ei ddarlunio felly, ni wnai dim y tro ini ond cael anfon cenadon at y fath bobl dywyll. Pe gwnelai unrhyw farnwr ar y fainc ganiatau i ddyn diniwed gael ei grogi yn lle llofrudd, ni fyddai diwedd buan ar y waedd yn erbyn y fath anghyfiawnder ofnadwy! Ni ellir byth "boddloni" cyfiawnder trwy gospi'r diniwed yn lle'r euog, gan y byddai hyny yn anghyfiawnder o'r fath waethaf. Nis gall athrawiaeth sydd yn dysgu fod Duw yn cospi ei blant yn dragwyddol, ac yn foddlon arllwys ei lid ar wrthddrych diniwed, ddim lla na bod yn anwir. Ni allai un tad daearol da, nac un barnwr daearol cyfiawn, ymddwyn felly.

II. Mae'r athrawiaeth yn ffugiol ac anwir fel esponiad ar *Bechod*. Dywedir wrthym fod dyoddefaint Crist wedi "boddloni'r" cyfiawnder dwyfol, gan fod ein pechodau ni yn cael eu "cyfrif" iddo ef. Yn yr un wedd fe'n achubir ni trwy ffydd yn aberth Crist, gan fod ei

gyfiawnder perffaith ef yn cael ei "gyfrif" i ni. Ond nid yw pechod a chyfiawnder yn *bethau* y gellir eu trosglwyddo oddiwrth un person at berson arall; yn hytrach *telerau* caritor ydynt, yn dwyn gyda hwy eu canlyniadau anocheladwy i bob enaid. Os dygwydd i mi fod mewn dyled o gant punt i rywun, fe all arall dalu y cant punt yn fy lle, ac felly gymmeryd y baich oddi arnaf; ond nid oes fath yn y byd o "gyfrifiad" trwy yr hwn y daw fy mhechod i yn eiddo i chwi, na'ch daioni chwi yn eiddo i mi. Byddai yn gabledd i feddwl y gwnelai Duw drin un diniwed fel pe byddai yn euog o ddrwg dynion pechadurus. Fe wel Duw ni yn gywir fel yr ydym, ac nid oes yr un "wisg o gyfiawnder" a ddichon byth guddio ein pechodau dirgel o'i olwg Ef. Yr oedd gan y Psalmydd olwg iawn ar athrawiaeth pechod, pan y dywedai, "Crea ynof galon lan, O Dduw; ac adnewydda yspryd uniawn o'm mewn." "Ni chwenychi aberth; pe amgen mi a'i rhoddwn; porth-offrwm ni fyni. Aberthau Duw ydynt yspryd drylliedig; calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi." "Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon; prawf fi, a gwybydd fy meddyliau; a gwel a oes ffordd annuwiol genyf, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol."

III. Mae'r athrawiaeth yn seiliedig ar syniad ffugiol am *Iachawdwriaeth.* Gwir iachawdwriaeth, nid iachawdwriaeth oddiwrth boen yw, ond oddiwrth bechod. Nid yw'r claf yn gofyn ei wellhau o'i boen, ond o'r clefyd sydd yn achosi'r poen. Pan fyddo'r clefyd wedi ei wella, mae'r poen wedi diflanu yn ogystal; ac felly pan waredir ni oddiwrth bechod, fe'n gwaredir oddiwrth ei felldith. Dyma ddysgir drosodd a throsodd yn y Beibl. "Pan ddychwelo yr annuwiol oddiwrth ei annuwioldeb a gwneuthur barn a chyfiawnder, yn y rhai hyny y bydd efe byw" (Ezec. xxxiii.). "Dangosodd efe i ti ddyn beth sydd dda; a pha beth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw" (Micah vi.). Yr ydym oll yn gyfarwydd a'r ddameg yn yr hon y mae'r Iesu yn desgrifio ffordd Iachawdwriaeth. Y dyn ieuanc oedd wedi gadael cartref a chrwydro i bechod a ffolineb, a gafodd iachawdwriaeth *trwy ddychwelyd adref.* Dechreuodd ffordd iachawdwriaeth pan y dywedodd, "Mi a godaf ac a af at fy Nhad." Nid oes yma ddim son fod y tad yn gofyn i rywun gael ei gospi yn ei le. Yr oedd yn foddlon cael ei fab wedi ei achub o'i lwybrau drwg, ac yn edifeiriol o'i bechod. Nid yw Iachawdwriaeth yn golygu gwaredigaeth o rywle a elwir Uffern, a bod yn etifedd lle arall a elwir Nefoedd. E ddywed Iesu fod Teyrnas Nefoedd o'n mewn ni. Mae Nefoedd ac Uffern ynom—cyflyrau ydynt—Nefoedd yn dynodi cariad a phurdeb, Uffern yn dynodi cas ac anmhuredd. Ac felly cawn eiriau yr athraw, "Gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw." Os mynwn ni fyned i mewn i'r bywyd, dysgwylir ini gadw'r gorchymynion. Efengyl yr Iesu i'r wraig bechadurus oedd, "Dos ac na phecha mwyach." A phan ofynodd y gwr ieuanc cyfoethog y ffordd i'r bywyd tragwyddol, fe'i dysgwyd ei bod yn gynwysedig mewn cariad, a'i bod i'w sicrhau trwy ufudd-dod i'r ddau orchymyn mawr: "Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw, a'th

holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl nerth : a'th gymydog fel ti dy hun."

Y sawl a gar ddaioni a gwirionedd uwch pob peth, ac a ymdrecho yn barhaus i orchfygu pechod, ac i ymgodi i fywyd gwell, daw'r dyn hwnw bob dydd i gymmundeb agosach a Duw'r Cariad a Sancteiddrwydd. S.

ARGLWYDD Y BYWYD.

Ti, Dduw, yn orseddedig fry,
Dy wawl trwy'r byd yn fflamio sy;
I'r haul a'r ser wyt gymhorth llawn,
Ond at bob dyn yn agos iawn.

Wyt Haul ein bywyd, Gwres ein dydd,
A'th lewyrch ar ein ffordd y sydd;
Ein gobaith wyt, a'th leuad dlos
Sy'n mwyn sirioli oriau'n nos.

Nos yw bod heb dy wen un awr,
A goleu dydd yw'th raslawn wawr;
Ein henfys, nod dy gariad cu:
Oll, ond ein drygau, yn eiddot Ti.

Ti, Ior pob bywyd, cawn i'n rhan,
Dy Wir a'th Gariad yn mhob man;
Ger d'orsedd wen, nis gofyn un
Am oleu'i lusern fach ei hun.

Rho in' dy Wir i'n rhoddi'n rhydd,
A mynwes fo ar dân bob dydd;
Nes galwo'th fyw allorau am
Un sanctaidd wawl, un nefol fflam.

(T.C.U.). Rhag. 2, 1892. OLIVER WENDELL HOLMES.

IESU O NAZARETH.

BETH A DDYWED DYNION MAWRION AM DANO.

AR dudalen dduaf hanes y cenedloedd, ymddysgleiria enw yr Iesu fel seren.—*Dl. Schenkel.*

Yr wyf yn meddwl fod ei gyfundrefn ef o foesau a chrefydd, fel y gadawodd efe hwy i ni, y goreu a welodd y byd erioed, a'r goreu mae yn debyg o weled.—*Benj. Franklin.*

Nis gellir cymhwyso dim a ddywedir yma, gyda'r anmharch lleiaf, at wir garitor Iesu Grist. Yr oedd yn ddyn rhinweddol a charuaidd. Y moesoldeb a bregethodd ac a weithiodd allan oedd yn dra godidog; ac er fod cyfundrefnau cyffelyb o foesoldeb wedi eu pregethu, lawer o flynyddau cyn hyny, gan Confucius, a chan rhai o athronwyr Groeg, gan y Crynwyr wedi hyny, a chan luaws o ddynion da yn mhob oes, nid oes un wedi rhagori ar eiddo'r Iesu.—*T. Paine.*

Mae yr eglwys a geisiodd ddiddyfnu dynion o'u cyfeiliornad, ac i'w cyssylltu drachefn â'r gosodiad difrifol mai hyhi yn unig oedd y gwirionedd, wedi syrthio i anrhaith er's llawer dydd. Ond mae yr eglwys a wneir i fyny o ddynion wedi eu huno, nid trwy addewidion neu sacramentau, ond trwy weithredoedd o wirionedd a chariad, wedi byw erioed, ac a fydd byw byth. Yn awr, megys, ddeunaw cant o flynyddau yn ol, gwneir yr eglwys hon i fyny, nid o'r sawl a ddywedant, "Arglwydd, Arglwydd," ac a wnant anwiredd, ond o'r sawl ydynt yn gwrando geiriau y gwirionedd, ac yn eu hamlygu yn eu bywydau. Aelodau yr eglwys hon a wyddant fod bywyd yn fendith iddynt cyhyd ag y parhaont mewn brawdoliaeth ag ereill, ac y trigont yn nghymdeithas Mab y Dyn, ac y collir y fendith yn unig gan y sawl na ufuddhant i orchymynion yr Iesu. P'un ai lluosog neu ychydig yw aelodau yr eglwys hon, hi, er hyny, yw yr eglwys na fydd marw, a'r eglwys a gyfuna yn ei mynwes, yn y diwedd, galonau holl ddynolryw. —*Count Tolstoi.*

Crist yw yr amlygiad gorphenedig o'r hyn all, ac a wna Duw, i bob enaid dynol ffyddlon. Efe yw y cysgod perffeithiedig o'r oruchwyliaeth sydd wedi ei dechreu yn mhawb, ond yn gyflawn yn neb. Efe yw y prawf mwyaf nodedig o'r ffaith fod Duw, nid yn unig oddiamgylch i ni, ac uwch ein penau, ond ynom ni.—*Charles Beard.*

Yr wyf yn ystyried y pedair Efengyl yn hollol ddilys, oblegyd mae ynddynt adlewyrchiad o fawredd a belydrai o berson yr Iesu, ac mor Ddwyfol a dim a welwyd ar y ddaear erioed. Pe gofynid i mi, A yw yn gydweddol â'm natur i dalu parch duwiol iddo? fy ateb fyddai, Yn ddiamheu. Yr wyf yn ymgrymu ger ei fron fel yr amlygiad Dwyfol o'r egwyddor uwchaf mewn moesoldeb.—*Goethe.*

Yr Iesu oedd yr unig ddyn y gellid dweyd am dano wrth bawb o bob cenedl, pob oes ac iaith, "Yr hwn, er nas gwelsoch, yr ydych yn ei garu: yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn ei weled, ond yn credu, yr ydych yn mawr lawenhau â llawenydd annhraethadwy a gogoneddus." —*Harriet Beecher Stowe.*

Pa ryfeddodau bynag sydd gan y dyfodol yn stôr i ni, ni eir byth y tu hwnt i'r Iesu. Fe ddaw ei addoliad yn ieuanc o hyd; fe bair ei hanes i'r dagrau dreiglo yn dorbaid, fe dawdd ei ddyoddefiadau y calonau mwyaf godidog, a datgana'r holl ganrifoedd na aned erioed yn mhlith meibion dynion fwy na Iesu Grist.—*Ernest Renan.*

Allan o gynhyrfiadau annysgybledig ei enaid y llefara; a phan y llefara, plyga cenedloedd eu pen. Can o ogoniant yw ei lais, a'i syniadau ydynt weledigaethau o nefoedd yn yr hon yr unir pawb dynion a chariad. Ei athrawiaethau ydynt ymadroddion syml am dadoldeb

a gofleidia holl blant dynion, ac am frawdoliaeth a wna un teulu o holl dylwythau y byd.—*P. C. Mozoomdar.*

Efe yw yr uwchaf o bawb am iddo fyned yn ddyfnach na phawb. Gwyddai angenion yr enaid yn well na neb arall. Yn fwy na phawb, parchai ddynoliaeth dyn. Yr oedd y natur ddynol, yn mhob ffurf o honi, yn anwyl ganddo. Nid oedd neb yn rhy isel, yn rhy wael, yn rhy bechadurus, i'w gariad Dwyfol. Dyma yw ei anrhydedd mawr, ei urddas penaf.—*James Freeman Clarke.*

~~Yn hyn o ymarweth yn Iesu oedd gwasgar~~ yspryd cyffredin o gariad melus yn mhlith dynion a ystyrid yn frodyr, am eu bod yn hiliogaeth un Tad. Darnio ei ymadroddion er chwilio am ryw dybiaeth dlewisol a fyddai mor ynfyd a gwasgar dail tlysion y blodeuyn, er mwyn *gweled* ei sawyr. Oblegyd ni ellir diffeinio byth y gwirionedd uwchaf, ac ni ellir ei garcharu mewn ffurf o eiriau! ~~A dirgelwch dylanwad arosol yn Iesu yw ei fod wedi rhoddi~~ mynegiad i egwyddorion a allant gael eu cymhwyso at bawb, gan adael i ddynion y rhyddid i'w cyssylltu ag unrhyw ffurfiau allanol, os ydynt yn dewis hyny, ond bob amser yn eu hadgofio fod "y lythyren yn lladd, a'r yspryd yn bywhau."—*Edward Clodd.*

Nid oes amheuaeth na chafodd yr Iesu ei anfon a'i fwriadu gan Ragluniaeth ar gyfer y gwaith mawr y daeth i'w gyflawnu. Mae dylanwad moesol mawr ei fywyd a'i farwolaeth yn aros o hyd yn nghymdeithas ddynol, ac yn ysprydoli ei hysgogiadau. Mae wedi llunio gwareiddiad Ewrop yn nghanrifoedd diweddaf ei hanes, ac y mae yn gorwedd wrth wraidd y cyfryngau mawrion mewn gwareiddiad a dyngarwch yn yr oes bresenol.—*Keshub Chunder Sen.*

Ag edrych ar y byd, gan hyny, fel y gwelir ef heddyw, yn flinderog ac yn llwythog, wrth ddarllen am dano trwy gofnodion yr oesoedd, rhaid i mi ddweyd nad oes un arddangosiad ynddo i'w gymharu am funyd i'r hyn a ddygwyd oddiamgylch gan fywyd a marwolaeth Crist. —*Thomas Hughes.*

~~Mae yn~~ anhawdd meddwl am dano fel un wedi ei neillduoli i un genedl neu i un dosparth neu brofiad: yr oedd yn gyffredinol. Er fod ganddo sancteiddrwydd yr offeiriad, yr oedd yn fwy nag offeiriad. Er y meddai ar ddoethineb yr athronydd, yr oedd ganddo gydymdeimlad aruchel â'r oll o'r bywyd dynol, ~~yr hyn~~ oedd ddyeithr i'r athronydd. Yr oedd yn fwy na phroffwyd, yn fwy nag Iuddew. Cyffyrddai â bywyd dynol o bob tu, er yn benaf yn ei elfenau ysprydol. Symmudai yr un fath yn mhlith y cyfoethogion, megys pe wedi ei fagu i gyfoeth. Yn mhlith plant, yr oedd yn gydymaith cynnefin; yn mysg doctoriaid duwinyddol, yn ddadleuydd heb ei fath.—*Henry Ward Beecher.*

Nid oedd moesoldeb yr Iesu mewn cydgordiad â thymher neu â theimladau ei oes. Yr oedd yn foesoldeb cyffredinol, wedi ei addasu ar gyfer yr holl hiliogaeth ddynol, ac ar gyfer pob cyfnod yn ei gwareiddiad. Yr oedd yn foesoldeb wedi ei sylfaenu ar egwyddorion eang a syml, na osodwyd i lawr erioed cyn hyny fel sail gweithredoedd dyn. —*H. H. Milman.*

Os oedd bywyd a marwolaeth Socrates yn fywyd a marwolaeth gwr doeth, bywyd a marwolaeth duw oeddynt eiddo'r Iesu. A gawn ni dybied mai ffug yw hanes yr Efengylau? Yn wir, gyfaill, nid oes olion ffug arno. Ar y llaw arall, nid oes cystal prawf dros hanes Socrates, nad oes neb yn ei amheu, ag sydd i hanes Iesu Grist. Mae yn fwy annghredadwy fod nifer o bersonau wedi ysgrifenu y fath hanes nag fod un person wedi gallu rhoddi testyn iddo. Yr oedd yr awdwyr Iuddewig yn annghymhwys i'r iaith, ac yn ddyeithr i'r moesoldeb a gynnwysir yn yr Efengyl. Mae y prawfion dros ei wirionedd mor nodedig o nerthol, fel yr ystyrir y dyfeisiwr yn gymmeriad mwy rhyfeddol na'r arwr.—*J. J. Rousseau.*

Hwn oedd yr enaid mwyaf o holl feibion dynion; dyn ag athrylith at grefydd; un yr oedd yn rhaid i feddwl mawreddog doethion Groeg a phroffwydi Hebreig guddio eu gwynebau ger ei fron. Profwch ef fel y profwn ni athrawon ereill. Traddodant hwy eu cenadwri; cânt ychydig i ddysgwyl am y dyddanwch, i dderbyn y newyddion, i ddylyn y ffordd newydd, ac i fyned yn fuan gerbron eu hathraw. Dyna fel y mae hi gyda sylfaenydd pob ysgol mewn athroniaeth, a phob plaid mewn crefydd. Er ond dynion isel, ni a welwn fwy nag a welodd Socrates a Luther erioed. Ond mae deunaw canrif wedi myned heibio er pan ymgododd llanw dynoliaeth mor uchel yn yr Iesu. Pa ddyn, pa blaid, pa eglwys sydd wedi meistroli ei feddylddrych mwyaf godidog, wedi amgyffred ei ddull, ac wedi ei gymhwyso yn gyflawn at ei fywyd.—*Theodore Parker.*

UNDODIAETH: YN NACAOL AC YN GADARNHAOL:

Gan y Parch. Charles Hargrove, M.A., Mill Hill Chapel, Leeds.

Beth gredir gan yr Undodiaid?

Mae anhawsdra i roddi ateb uniongyrchol i'r gofyniad, yn gymmaint nad yw Undodiaid ddim, fel enwadau ereill, yn derbyn credo, neu gyffes ffydd awdurdodol. Os bydd ar rywun chwant ymuno a hwy, tybir fod hyny o herwydd fod eu dull o addoli yn dderbyniol ganddo, a'i fod yn cyduno mwy neu lai a'r hyn a glyw yn gyffredin o'u pwlpudau. Pan yn ymaelodi nid ydys yn gofyn dim iddo am yr hyn mae'n gredu neu annghredu. Mae yn d'od yn aelod cynnulleidfa trwy ei ymlyniad ei hunan, ac nid trwy benderfyniad ereill yn nghylch ei ffydd neu ei addasrwydd.

Felly mae'n dygwydd fod rhai Undodiaid yn llawer nes i'r gred boblogaidd nag eraill, ond nid oes gan neb hawl i feio arell am gredu gormod neu ry fach. Etto mae rhai pethau ag y mae cytundeb cyffredin, os nid hollol arnynt, a gallwn dywedyd—heb rwymo neb—nad yw

UNDODIAID DDIM YN CREDU

Yn y *Drindod*, neu fod tri pherson yn Un Duw.
Yn yr *Ymgnawdoliad*, neu fod Iesu Grist yn Dduw a dyn yn un person.
Mewn *Ysprydoliaeth Lythyrenol*, neu fod y Beibl yn anffaeledig Air Duw.
Yn yr Iawn neu'r *Haeddiant*, fel yn golygu fod dyn yn greadur syrthiedig, wedi ei eni mewn pechod, ac mewn angen cyfryngwr i'w gymmodi a Duw.
Mewn *Cyfiawnhad trwy Ffydd*, yn yr ystyr fod nac eglwys na sacramentau, na chredo, na Beibl, yn angenrheidiol i fywyd da a duwiol.
Mewn *Marwolaeth*, fel diwedd pob ymdrech a phob gwaith, neu mae'r bywyd hwn yw unig gyfleusdra profiad dyn, a bod gwae neu wynfyd digyfnewid yn canlyn ar ei ol.
Mewn *Satan* ac Uffern, neu fod yn Myd Duw yr un lle neu berson, lle mae casineb a drwg a thrueni i barhau byth ynddo.

Y MAE UNDODIAID YN CREDU

Fod *Un Duw*; a bod pawb ydynt i unrhyw raddau yn canfod, ac mewn yspryd a gwirionedd yn parchu, "Gallu Anweledig" yn gweithio yn nghyfeiriad cyfiawnder, yn addolwyr cymmeradwy ganddo Ef.

Fod *Iesu Grist* yn athraw, ac yn gyfiawn yn cael ei alw yn Grist (neu Eneiniog), gan fod Duw wedi ei eneinio a'r Yspryd Glan ac a nerth (Act. x. 38), a bod pawb ydynt yn ceisio meddwl a gweithredu yn ol ei gyfarwyddiadau a'i esiampl yn wir Gristionogion.

Fod y *Beibl* yn cynnwys hanes meddyliau dynion defosiynol am Dduw a'i weithredoedd, a'r modd i'w wasanaethu, fel yr oedd o oes i oes yn dadguddio ei hun yn fwy cyflawn; ei fod felly yn arbenigol yn llyfr profiad crefyddol, ac fel y cyfryw i'w ddarllen a'i barchu gan bawb a fynant dderbyn lles oddiwrth wersi y gorphenol, y rhai ydynt mor galed i'w dysgu ac mor hawdd i'w hannghofio.

Fod *dyn* yn blentyn Duw, a chanddo bob amser fynedfa rydd ato, megys y mae gan blentyn, ie, hyd y nod gan afradlon, at dad da.

Fod *iachawdwriaeth* yn gynnwysedig mewn rhyddhad oddiwrth drueni, pechod, a chyfeiliornad, a bod ffurfiau crefydd i'w barnu yn ol mesur eu heffeithioldeb i achub dynion rhag y drygau hyn.

Fod ein *dedwyddwch* neu ein hannedwyddwch ar ol marw yn dybynu ar y modd byddwn wedi byw—yn dda neu yn ddrwg—yn y bywyd hwn, yn ol geiriau y proffwyd: "Dywedwch mai da fydd i'r cyfiawn: canys ffrwyth eu gweithredoedd a fwynhant. Gwae yr anwir, drwg fydd iddo: canys gwobr ei ddwylaw ei hun fydd iddo" (Esaiah iii. 10 11).

Yn ddiweddaf, fod Duw yn fwy *Da* na'r goreu o dadau, yn fwy *cyfiawn* na'r unionaf o Farnwyr; y gallwn gyflwyno ein hunain iddo Ef mewn perffaith hyder y gwnaiff Ef a ni bob amser yr hyn fydd er ein gwir les, yma ac yn mhob man, yn awr ac am bob tragwyddoldeb.

A hon, meddant, yw y Ffydd Gatholic neu Gyffredinol sydd yn gorwedd o dan bob ffurf o grefydd, a'r hon, os bydd i ddyn ei chredu a byw yn ei hol, a fydd yn sicr o ddwyn iddo iachawdwriaeth.

NODYNAU GWASGAROG.

Anwyl Olygydd,—Gobeithio y caniatewch i'r llinellau canlynol gael ymddangos yn yr Ymofynydd am Ragfyr.

Y mae yn debyg fod ein Cwrdd Trimisol nesaf, sef Cwrdd Nadolig, i fod yn y Graig, Llandyssul. Gobeithio na ddygwydd dim yn y cyfamser i'w rwystro i gymmeryd lle fel yr amcenir yn bresenol. Y mae Llandyssul yn lle cyfleus iawn i gynnal cyfarfod o'r fath, yn neillduol ar yr amser hwn o'r flwyddyn, pan y mae'r hin weithiau yn dra anffafriol. Er nad oes genyf awdurdod i ddweyd hyny, gwn fod yno ddigon o ddynion caredig a galluog a roddant roesawiad gwresog i bawb a ddelo i'r cyfarfod, ac yn neillduol i bobl bellenig, y rhai ni raid iddynt ofni na ddarperir ar eu cyfer bobpeth i'w gwneuthur yn gysurus. Gobeithio yn fawr y bydd y cyfarfodydd yn llwyddiant perffaith, ac y ceir y bobl i'r fath hwyl, nes y byddo'r gwahanol gynnulleidfaoedd yn ymryson am Gwrdd y Pasc nesaf. Yr wyf yn cofio mai felly, yn aml, yr oedd hi gynt; a'm dymuniad yw y ceir ei gweled hi felly etto. Gwnaer tân da yn y Graig, nes gwresogi pawb, a cheir gweled beth fydd y canlyniad.

Goddefer i mi alw sylw cyfeillion, yn llên a lleyg, at y mater a ganlyn:—Y mae genyf dan fy ngofal, ac yn perthyn i Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, gyfrolau lawer o *Ymofyniad Tawel Belsham*, rhifedi mawr o'r *Egwyddorwr*, gan Theophilus Lindsey, &c., nad ydynt o un lles i neb, yn orchuddiedig gan lwch a gwe'r cor, fel y maent yn bresennol; a chan fod Dr. Griffiths yn cwyno o herwydd prinder llyfrau Undodaidd yn yr Iaith Gymraeg, onid gwell fyddai rhoi rhai o honynt iddo ef i'w gwerthu am isel bris tua Phontypridd a manau ereill lle y mae, ar hyn o bryd, yn llafurio fel cenadwr; neu eu rhoi am ddim i bersonau prin eu harian, os y bydd yn barnu y gwnant eu darllen. Gobeithio y trefnir rhyw gynllun yn nghyfarfod Nadolig i ddefnyddio'r cyfryw lyfrau fel ag i fod o ryw wasanaeth i'r achos ydym yn ei anwylu. Heblaw hyn, o herwydd fy mod wedi newid y nghartref yn ddiweddar, a'bod y tŷ, yn yr hwn yr wyf yn byw yn bresennol, yn llai ei faintioli nâ'r tŷ yn yr hwn yr oeddwn yn byw o'r blaen, nid oes genyf le i gadw llyfrau'r Gymdeithas mwyach —ie, y mae yn rhaid i mi gael gwared o lawer iawn o'm llyfrau fy hun. Heblaw Dr. Griffiths, gall gweinidogion ereill gynnorthwyo yn nosparthiad llyfrau'r Gymdeithas, fel y byddont o ryw ddaioni i Undodiaeth.

Hefyd, y mae yn fy nghadwraeth gyfran fawr o lyfrau y diweddar John James, Gellionen, y rhai ydynt, yn ol ei ewyllys ddiweddaf, i fod at wasanaeth gweinidogion neu weinidog Pantdefaid a Chapely-

groes am yr amser *(for the time being)*. Ni rydd y rhai'n i mi na phleser na gofid rhyw lawer o amser yn hwy. Gwn sut, a pheth raid i mi wneyd yn dra buan.—Yr eiddoch, &c.,

Tachwedd 17, 1893. THOS. THOMAS.

HIR A THODDAID,

I'r diweddar John Davies, Neuadd, Ceinewydd. (Buddugol).

Trwy'n hardaloedd mae cannoedd yn cwyno
Am ŵr y Neuadd, a ga'dd ei guddio;
Gwr od o weddaidd, a gair da iddo,
A Christion diflin sy' gwedi'n gado;
Y cyfiawn ddyn, cefn oedd o—i eraill,
A mwynaidd gyfaill—mae'n hawdd ei gofio.

DEWI HEFIN.

HEN GAPEL BLAENGWRACH.

MR. GOL.,—Gwelais ymofyniad dro yn ol am yr hen gapel uchod. Yr wyf wedi gweled y prydles ac wedi meddwl y gall yr ychydig ffeithiau canlynol fod yn ddyddorol i rai o'ch darllenwyr. Adeiladwyd y capel yn 1704, ond dyddiad y prydles yw Mai 1, 1719. Fe'i rhoddir gan Llewelyn Morgan a Catherine ei wraig i'r "Protestant Dissenters for the service and worship of God," a'r personau yn cynrhychioli'r gynnulleidfa yw Rees Morgan a David Richard o Ystradfellte; Lewis Jenkin a Thomas Morgan, Cadoxton juxta Neath; Daniel Morgan a Thomas Rees, Glyncorwg—y *trustees* dybiwn i.

A oes rhywun a all ddweyd rhywbeth am y personau uchod—oeddynt yn gwasanaethu crefydd yn yr oes hono? Rhyfedd mor fuan yr annghofir ni!

25 Hydref 1893. R.J.J.

ER COF

Am y diweddar John Jones, Esgeiniglis. (Buddugol yn Bethel, Drefach, Tachwedd 11, 1892).

Mae galar am gâr mor gu;—onid oedd
Yn deg ei fawrygu?
Ei fer oes roes i'r Iesu;
Tawel fab mewn teulu fu.

O'i ddu gell ni ddaw a'i gân—yma byth;
Mae Bethel yn cwynfan;
Holl fywyd diwyd Ioan
Daena glod i'w enw glân.

DEWI HEFIN.

EIN PROGRAM AM 1894.

Os caniata Rhagluniaeth nerth ac iechyd i ni, yr ydym yn addo gwneyd ein goreu i gadw o'n blaen yr uchelgais o godi yr YMOFYNYDD i safle uwch ag sy'n alluadwy i ni yn mhlith cyfnodolion crefyddol Cymru. Methasom, o herwydd rhwystrau anorfod, a chario allan yr ymgais o erthygl yn fisol wedi ei sylfaenu ar "Perfect Life" Dr. Channing. Cyhoeddwyd hanner y nifer bwriadedig, ac amcanwn gael yr hanner arall y flwyddyn nesaf, a'r rheiny gan rai o ysgrifenwyr galluocaf yr enwad. Yr ydym wedi llwyddo i sicrhau gwasanaeth gohebwyr newydd, a theimlwn yn sicr y rhydd eu cynnyrchion foddhad cyffredinol. Anturiwn ofyn am help ein cyfeillion yn mhob cwr o'r wlad i ledaenu cylchrediad ein misolyn, oblegyd os gwna pob derbyniwr ei oreu i geisio cael gafael mewn derbynwyr newyddion, gwna les dirfawr, trwy hyny, i achos crefydd syml a rhesymol, fel y traddodwyd hi gan yr Iesu.

DAMMEG Y GWERTHWYR LLAETH.

GAN FRODOR O'R INDIA.

YN yr India llaeth yw yr unig fwyd anifeilig ydy' ni'n fwyta, a charitor drwg am onestrwydd sydd i'r rhai sy'n gwerthu llaeth. Un tro bu gonestrwydd y bobl yma yn bwnc dadl wresog rhwng Brenin a'i weinidog oedranus; a thra'r oedd Cynghorwr profiadol yn honi nad oedd y fath beth dan haul a llaethwr gonest, ni fynai'r Brenin gydnabod gwirionedd y fath gyhuddiad eithafol yn erbyn dosparth mor lluosog ac mor barchus o'i ddeiliaid. "Os rhoddaf foddlonrwydd llygaid i chwi o wirionedd fy honiad, a goeliwch chi wed'yn?" Atebodd y Brenin y gwnai, a dyma ddygwyddodd.

Ar ol ychydig ddyddiau yr oedd cylchwyl flynyddol angladd tad y Brenin, ac yr oedd y mab, fel y gweddai i Hindw iawnffyddiog, yn wastad yn cadw'r wyl yn barchus, er nad oedd pob peth mewn cyssylltiad bob amser yn foddhaol. Ar yr achlysur, cynnelid gwledd fawr, ac at y wledd gorfyddid miloedd yn amaethwyr, marsiandwyr, pysgotwyr, gwyr y llaeth, &c., i gyfranogi, yr hyn a wnaent nid mewn arian, ond o'r gwahanol bethau a werthent. Yr oedd degau o filoedd yn cyfranogi o'r wledd. Yr oedd gwyr y llaeth i ddwyn eu rhan hwy o'r dreth ar amser pennodedig. Er mwyn storio yr holl laeth yma, yr oedd yn rhaid gwneuthur darpariadau helaeth, fel y gallai'r coginwyr Hwndwaidd barotoi eu cant ac un llestriadau nad oes ond hwy a wyddant eu gwneuthur a'u mwynhau; ac ar gyfer hyny yr oedd yn rhaid cael llestr brou cymmaint a llong i ddal y llaeth. Gwnaed y llestr yn barod, a dodwyd mur uchel o'i amgylch, fel na fyddai i lygaid halogedig allu gweled yr ystorfa freninol. Yr oedd y llaethwyr yn ddeng mil ar hugain mewn nifer, a gofynid i bob un ddwyn galwyn o laeth. Cyhoeddwyd proclamasiwn y brenin, gyda manylion sut oedd pob un i wneyd. Gorchymynid pob llaethwr i ddwyn ei gyfran

i fewn y noson cyn y wledd, dal ei lestr uwch ei ben, a'i arllwys dros y mur i'r llestr mawr.

Yn awr, yr oedd yno un hen laethwr, yn crymu gan oedran a doethineb, yr hwn, cyn ei gychwyn o'i gartref â'r dreth ymherodrol ar ei ben, a feddyliodd rywbeth fel yma: Beth pe gwnawn i roddi llestraid o ddwfr pur yn lle llestraid o laeth pur, nid oes fferyllydd ar y ddaear a allai ddyfod o hyd i'r galwyn dwfr mewn 29,999 galwyn o laeth. Ond fel y mynai ffawd, trodd y cynllun yn anffawd, gan fod pob llaethwr, gyda mwy o ddoethineb na gonestrwydd, wedi gadael ei feddwl i redeg yn yr un cyfeiriad. Dan gysgod nos, cychwynodd pob llaethwr ar ei neges, a dygodd ei lestr o laeth 'pur,' daliodd ef uwch ei ben, ac arllwysodd ef dros y mur i'w briodol le. Bore dranoeth, pan ymddangosodd y Prif weinidog yn y llys, y peth cyntaf a wnaeth oedd ceisio gan y brenin i ddyfod allan gydag ef i gael golwg ar y fath olygfa na welwyd yn aml—math o fôr o—laeth! Pan ddaethant i'r lle, cawsant olygfa hyfryd o ddwfr grisialaidd yn ymdono'n dawel dan ddylanwad yr awel dyner!

A ydych yn credu yn awr yr hyn a ddywedais? ebe'r Prif weinidog. Rhwbiodd y Brenin ei lygaid, ac atebodd, Ar ol hyn bydd yn anhawdd genyf byth gredu yn ngonestrwydd y dyn llaeth!

ADGOFION CYMRU FU.—PENNODAU ANGHOFIEDIG.

8. Dau Gymro nid Anenwog.

Mae amrywiaeth mawr o ddynion yn y byd, oes, hyd y nod yn y byd Cymreig. Yn ein hysgrif bresenol yr ydym am ddywedyd rhywbeth yn nghylch dau Gymro tra gwahanol i'w gilydd, a dau ydynt, er wedi marw, yn llefaru etto. Mewn gair, maent wedi gadael eu hol a'u dylanwad mewn llawer cyfeiriad.

Nid oes dim i'w ganmol, ar a wyddom ni, yn hanes y ddeuddyn enwog, ac etto credwn fod ganddynt wers bwysig i'w dysgu i'r oes bresenol. Cyhoeddwyd braslun o gymmeriad un o'n harwyr gyntaf mewn rhifyn o'r *Carmarthen Journal* flynyddoedd lawer cyn geni ysgrifenydd y llinellau hyn. Yn wir, y mae llawer blwyddyn bellach oddiar y gwelsom gopi ysgrifenedig o'r braslun hwnw, ac y mae llawer *point* pwysig wedi dianc o'n cof erbyn hyn, fel na's gallwn roddi fawr manylion. Rhoddid yr hanes mewn rhigymau Seisnig. Yr oedd dau ddyn yn teithio trwy ran o'r wlad, y naill yn Gymro a'r llall yn Sais—yr olaf yn Sionholwr mawr. Elent trwy ardal brydferth, a gwelent olygfeydd rhyfeddol. Sionholai'r Sais "yn fan ac yn aml," ond ni chaffai gan y Cymro ond un ateb i'w holl holebion. "Pwy sy'n byw fan acw?" "Dim Saesneg, syr." "Pwy bia'r plas draw?" "Dim Saesneg." "Pwy adeiladodd y castell acw?" "Dim Saesneg, syr, yn wir." "Beth? Rhaid fod *Dim Saesneg* wedi byw yn hen iawn." A phan ddaethant i fyny at sgerbwd dyn yn hongian ar ochr y ffordd, bu hwnw drachefn yn achos yr un ateb—"Dim Saesneg, syr." Wedi byw cyhyd yr oedd yn rhaid iddo yntau hefyd, fel Methusalah gynt,

gyrhaedd ei derfyn, a myned i ffordd yr holl ddaear, gyda hyn o wahaniaeth, fodd bynag, iddo ef orfod cael help—

"And when at last he did elope
He took advantage of a rope!"

John Jones, Glan y Gors, sydd wedi rhoddi hanes y Cymro arall—hefyd ar gan—ond yn y Gymraeg, ac yn ddoniol fel holl ganeuon Jack.

Gwrandewch ar hanes Dic Sion Dafydd,
Mab Hafotty'r Mynydd Mawr;
A'i daid yn d'wedyd bod ei wreiddyn
O hil gethin Albion Gawr.
Ni wyddai Dic fawr am lyth'rene,
Na'r modd i ddarllen llyfre llawn;
Yr holl addysg a gadd e gartre
Oedd nyddu a chardio a chodi mawn.

Ond yr oedd yn Dic ddigon o uchelgais, ac er mwyn porthi hwnw a dod yn mlaen yn y byd, gadawodd ei gartref i gael golwg ar Lunden.

O'r diwedd Dic a ddaeth i Lunden,
A'i drwyn o fewn llathen at gynffon llo;
Ar hyd ei ffordd â'i bastwn onen,
Yr oedd e'n gwaeddi, Hai, ptrw, ho!

Ond i dori stori hir yn stori fer, trwy egni a dyfalbarhad, ymwthiodd Dic yn ei flaen gyda llawer iawn o lwyddiant, o leiaf am dymhor. Pan oedd wedi dringo o gam i gam nes ennill tipyn o sylw, dechreuodd chwyddo ac actio'r boneddwr (gan annghofio chwedl y broga), ac i siarad Saesneg. Wrth gwrs nid oes niwed yn y byd mewn siarad Saesneg, ond nid ymfoddlonai Dic ar hyny yn unig.

Ac wedi gwneyd ei hun i fyny,
I wlad Cymru fe aeth bob cam;
Yn ei gader yn ergydio
Yn gwaeddi Halo, wrth Foty ei fam.
A Lowry Dafydd ddywedai ar fyrder,
"Ai machgen anwyl i ydwyt ti?"
"Bachgen!—Tim Cymraeg, hold your pother,
Mother, you cannot speak with me!"

A gorfu ar yr hen fam druan anfon am y ffeirad (yr hwn a ddeallai Saesneg) i w helpu i ymddyddan a'i mab. Wedi i ddynion ddechreu ei alw yn Mr. Davies, ni fu Dic yn hir cyn i'r hwch fyn'd trwy'r siop arno.

Yn awr, dyna fraslun hanes y ddeuddyn enwog, ac fe wel y craffus, gyda llai na haner llygad, nad ydynt gymmeriadau i'w hefelychu. "Dim Cymraeg,' yn wir—y fath ffrost ynfyd! Adwaenwn ddigon o blant Dic heddyw—yn annghofio eu Cymraeg cyn dysgu nemawr ddim Saesneg. Pa angen dibrisio yr hen iaith Gymraeg? Nid arwydd o wybodaeth a doethineb yw. Ac arwydd hefyd o ddiffyg synwyrau, neu o ddiogi annyoddefol, yw fod neb heddyw yn gorfod dywedyd "Dim

Saesneg." Ni all lai nad hurtyn gwirion yw pob un o'r fath. Dylai pob Cymro fedru Saesneg—"iaith y rosbiff a'r plwm pwdin," chwedl Kilsby. "Mynyddoedd biff ac afonydd bir—bendithion Sasnag," chwedl Ceiriog. Dysger y Saesneg heb annghofio na dibrisio y Gymraeg. Erbyn heddyw mae yn perthyn i'r Gymraeg ei gwerth marchnadol yn Nghymru, ac fe aiff eu gwerth ar gynnydd. Mae perchen dwy iaith bob amser yn gyfoethocach na pherchen un yn unig, am hyny dysged pob Cymro y ddwy, meistroled y ddwy. Cynghor synwyr cyffredin yw, Dysgwch y ddwy, a chynghor Ceiriog yw:

Na foed *neb* yn Nghymru mwy
O afon Gaer i afon Gwy,
Heb siarad y ddwy—siaradwch y ddwy.

17 *Tachwedd*, 1893. P. P.

Manion ac Hanesion.

MERTHYR TYDFIL.—Ar ddiwedd y cyfarfod hwyrol Sul neu ddau yn ol, cyflwynodd y cyfeillion a arferant addoli yn nghapel Twynrodin anrhegion defnyddiol i'r cyfaill gweithgar Mr. Gomer Llewelyn Thomas, mab Mr. Thomas Thomas, *ironmonger*, yr hwn sydd un o bileri yr achos Undodaidd yn y dref, yn arwydd o ddymuniadau da ar achlysur ei briodas. Siaradodd amryw gyfeillion yn hynod uchel am lafur a ffyddlondeb Mr. Thomas, a dymunent iddo i gyd oes hir yn llawn o'r bendithion goreu. Dymunwn ninau yr un modd.

Y GYMMANFA GANU.—Mae argoelion ardderchog am y gymmanfa hon, y program yn nwylaw y cantorion, a'r anthem, "Teyrnasoedd y Ddaear," wedi ei meistroli yn barod gan nifer luosog o'r corau. Fel y gwelir ar yr amlen, cenir yr anthem ar adeg y cyfarfod chwarterol yn Llandyssul. Ceisia Mr. Jones, yr arweinydd, roddi ar ddeall i'r corau y carai efe wneyd ychydig o gyfnewidiad, sef canu "Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel," gan J. Thomas, Llanwrtyd, yn Gymraeg, yn lle "Yr Arglwydd yw fy Mugail," gan Dr. Parry, yn Seisneg. Creda y bydd hyn yn welliant, a charai wasgu etto ar yr arweinwyr i gael cydbwysedd priodol rhwng y lleisiau trwy gael cynnifer ag y byddo modd o *altos*. Byddwn ffyddlon a diwyd, ac ni a gawn lwyddiant mawr.

Dydd Sul, Hydref 22ain, talodd Ysgol Sul Pantdefaid ymweliad â'r chwaer-ysgol yn y Cribin. Yr oedd yr hin yn ffafriol dros ben, a phob peth arall i'r eithaf yn ddymunol. Yr oedd yr ysgol, yn nghyd ag ychydig gyfeillion mewn cydymdeimlad, o gant i chwech ugain mewn rhifedi. Yr oedd rhyw ddau ar bymtheg o gerbydau, heblaw amryw o feirch marchogaeth, Holwyd yr ysgol gan y Paroh. Dd. Evans yn Iago ii. Cafodd y naill a'r llall eu boddloni yn fawr, a byddant yn hoffi cael cwrdd â'u gilydd etto. Canwyd amryw donau dan arweiniad medrus y cyfaill ieuanc, Mr. John Jones, Ceginan. Dangosodd cynnulleidfa y Cribin garedigrwydd dros ben. Cafodd pawb gyflawnder o adloniant o'r fath oreu, ac ni fydd pobl Pantdefaid yn ol iddynt pan ddaw yr amser i ysgol y Cribin i ad-dalu'r ymweliad. Pe na fyddai un daioni arall mewn ymweliadau o'r fath, mae yn dda fod yr Undodiaid yn cael cyfleusdra i adnabod eu gilydd.

PRIODAS.—Tachwedd 8fed, 1893, yn nghapel newydd y Llwyn, Mr. John Davies, *mason*, Pontypridd, gynt o'r Cribyn, â Miss Mary Davies, *dressmaker*, Derwlyn, Llandyssul.

Cadwyn hedd a'u cydio 'nhwy,—eu holl [lwybr
Fo yn llyfn i'w dramwy;
Yma boed yn mhob adwy
Ioan a Mair yn un mwy. D. H.

Y Parch. J. Cerddig Jones, M.A.—Yr ydym yn sicr y llawenha ein darllenwyr yn y ffaith fod ein gohebydd, Mr. Jones, wedi ennill y wobr flaenaf a gynnygiwyd gan Bwyllgor Undeb Ysgolion Sul Dosparth Manchester am yr emynau goreu ar destyn pennodol. Dymunwn ei longyfarch yn serchog.

Pontypridd.—Prydnawn Sul, Tach. 5, ar ddiwedd y gwasanaeth, cynnaliwyd cyfarfod er mwyn anrhegu y brawd a'r chwaer ffyddlon, Mr. a Mrs. John Lewis ar eu huniad mewn glân briodas. Yr anrheg oedd hin-ddangosydd (*barometer*) hardd. Cyflwynwyd yr anrheg ar ran yr aelodau gan Mrs. Jenkins mewn ychydig eiriau pwrpasol. Cafwyd anerchiadau llongyfarchiadol gan ein gweinidog a chan Mr. Hartland, gan gyfeirio at wasanaeth anmhrisiadwy Mr. J. Lewis yn nglyn â'r eglwys. Diolchodd Mr. Lewis yn gynhes am yr anrheg, ac am y teimladau da sydd yn bodoli rhyngddynt. Hefyd, y mae yn hyfrydwch genyf eich hyspysu fod Mrs. Lewis yn cymmeryd dyddordeb neillduol yn yr eglwys. Hir oes lewyrchus iddynt yw ein dymuniad.—*Un o'r Aelodau.*

Dowlais.—Cynnaliodd eglwys Undoddaidd y lle hwn ei gwyl dê flynyddol dydd Iau, Tach. 16, pryd y daeth tyrfa fawr o bobl o bell ac agos i gyfranogi o honi. Gwelsom luaws o'r cyfeillion o Aberdar, Cwmbach, a'r Cefn, yn bresennol, ac yr oedd y llawenydd melus ganfyddid yn orseddedig yn eu llygaid siriol yn dwyn tystiolaeth fod y tê eleni etto yu ei safle uwchaf o berffeithrwydd. Ond dyna, pa ryfedd, pan oedd y brawd Mr. Evan Lewis yn *superintendent* arno!

O Bedlinog yn dra hwylus
Daeth y cyfaill Evan Lewis,
Yr oedd heulwen deg sirioldeb
A stêm y tê yn lloni'i wyneb.
Wrth y *boiler* a'r dw'r berw
Gweithiai'n dawel a didwrw;
Cadwai'i glod i fyny'n fedrus
Wrth ddarparu shwd dê blasus.
Medde'r gwragedd llon â diddig,
"Dyma dê na fu ei debyg!"
Chwarddwn inau yn fy llawes
Yn swn y canmol ar dê Dowlais.

Yr oedd yr ysgoldy wedi ei haddurno ar gyfer yr amgylchiad gan bobl ieuainc y lle, ac yr oedd y byrddau wedi eu tlysu â blodau. Gwasanaethwyd wrth y byrddau gan y boneddigesau canlynol:—Mrs. a Miss Lewis, Brantirion street; Miss Evans a Miss Davies, Penydarren; Mrs. Jones, Mount Pleasant street; Miss Thomas a Miss Evans, Overton street; Miss Evans a Mrs. Davies, Blanche street, yn nghyd â Mrs. Davies, Gibson row, yn tafellu'r brechdan. Gwelsom y Parchedigion canlynol yn bresenol:—J. Hathren Davies, Cefncoed; J. Fisher Jones, Cwmbach; Jenkin Thomas, Highland Place; a Dr. Griffiths, Pontypridd.

Marwgofion.

Tachwedd 7, yn 55 mlwydd oed, David Enoch, o Benydarren, gerllaw Merthyr Tydfil. Y diniweitiaf o ddynion oedd y cyfaill tawel a gonest hwn, a hanai o deulu y nodweddid ei aelodau gan gyffelyb deithi. Ei ewythr, Dafydd Enoch, o Rymni, oedd ddyn a feddai ar fesur helaethach na'r cyffredin o'r "dduwiol anian," a'i frawd, John Enoch—dyn ffyddlon na harddwyd Undoddiaeth erioed gan ei gywirach a'i ddiniweitiach. Collodd Dafydd Enoch ei iechyd tua dwy flynedd yn ol ac wedi iddo gryfhau tipyn, daeth dyrnod y *Liberator Society* arno, yr hyn a effeithiodd ar ei iechyd gwan yn barod, fel na ddaeth yn ddigon cryf i ddylyn gorchwyl o waith byth mwy. Yr oedd yn aelod eglwys yn Hen Dy Cwrdd, Cefn, ac ni fu gan yr eglwys hono erioed brydferthach aelod, ac er i'r oll o Undodiaid Dowlais ymuno â'r eglwys yn y lle hwnw pan yr adeiladwyd y capel, cyrchai Dafydd yn rheolaidd i'r Cefn, er fod y ffordd yn feithach, a glynodd i gyrchu tra gallodd. Y dydd Sadwrn canlynol, claddwyd ei weddillion yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Ifor Davies a J. Hathren Davies. Duw fyddo'n ffynnon o ddyddanwch i'w chwaer drallodus sydd mewn galar ar ei ol.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.